


.....  
**ASESIAD STRATEGOL  
O DROSEDDAU BWYD  
2020**  
.....



Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd rhwng yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU)


# Tabl Cynnwys

---

<b>Tebygolrwydd ac Ansicrwydd</b> .....	<b>2</b>
<b>Rhagair</b> .....	<b>3</b>
<b>1. Crynodeb Gweithredol</b> .....	<b>6</b>
<b>2. Cyflwyniad</b> .....	<b>10</b>
2.1 Diben a strwythur.....	10
2.2 Ffynonellau gwybodaeth a chyfyngiadau.....	11
<b>3. Amgylchedd Presennol</b> .....	<b>12</b>
<b>4. Troseddau Bwyd a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol</b> .....	<b>19</b>
4.1 Trosolwg.....	19
4.2 Manteisio ar y system fwyd.....	20
4.3 Troseddwyr bwyd a throseddwyr cyfundrefnol difrifol .....	21
<b>5. Asesiad o Fygythiad</b> .....	<b>23</b>
5.1 Trosolwg.....	23
5.2 Dwyn .....	25
5.3 Prosesu Anghyfreithlon .....	29
5.4 Dargyfeirio Gwastraff.....	32
5.5 Difwyno ac Amnewid .....	33
5.6 Camgynrychioli .....	43
5.7 Twyll Dogfennau.....	51
<b>6. Dyfodol Troseddau Bwyd</b> .....	<b>55</b>
<b>7. Y camau nesaf</b> .....	<b>59</b>
<b>Atodiad A – Rhestr o Gyfranwyr</b> .....	<b>61</b>

# Tebygolrwydd ac Ansicrwydd

Trwy gydol yr Aseiad Strategol o Droseddau Bwyd, defnyddiwyd y 'ffon fesur tebygolrwydd' (fel y'i diffinnir gan y Pennaeth Proffesiynol dros Asesu Gwybodaeth)<sup>1</sup> i sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol fygythiadau a themâu wrth asesu tebygolrwydd. Mae hwn yn ddull cydnabyddedig a ddefnyddir gan asiantaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU). Mae'r canlynol yn diffinio'r ystodau tebygolrwydd a ystyrir pan ddefnyddir iaith o'r fath:



<sup>1</sup> Mae'r Pennaeth Proffesiynol dros Asesu Gwybodaeth wedi'i leoli o fewn y [Sefydliad Gwybodaeth ar y Cyd](#) yn Swyddfa'r Cabinet.

# Rhagair

---

Mae'n bedair blynedd ers i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (yr Unedau) gyhoeddi ein hasesiad llinell sylfaen cyntaf o'r bygythiad i'r DU a'i buddiannau yn sgil troseddau bwyd.

Ers hynny, mae'r Unedau wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at aeddfedu ac ehangu eu gweithgarwch gweithredol, gan ddangos ein ffocws parhaus ar y maes troseddu cymhleth hwn.

Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth gref o werth atal troseddau bwyd; bydd llawer o'r gwendidau a nodir yn yr asesiad yn faterion lle bydd datrysiadau strwythurol neu ataliol yn well, neu'n elfennau hanfodol i gyd-fynd ag ymdrechion i fynd ar drywydd troseddwy'r a nodir trwy weithgarwch gorfodi.

Mae amgylchedd bwyd diogel yn y DU. Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod y gall newidiadau yn y sector bwyd a diod newid tirwedd cyfleoedd troseddol yn y maes hwn yn yr un ffordd, ac mae'r asesiad yn cyfeirio at rai o'r mesurau gwyliadwriaeth sydd eu hangen. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y DU mewn mwy o berygl yn sgil troseddau bwyd o ganlyniad i ymadael â'r UE, fodd bynnag, mae ein statws newydd yn parhau i fod yn ffactor y bydd angen i ni ei ystyried, gan fod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd.

Wrth adlewyrchu, fe welwn yn glir bod angen mynd i'r afael â throseddau bwyd ar y cyd. Bydd pa mor effeithiol ydym ni wrth fynd i'r afael â'r bygythiad i'w gymharu'n uniongyrchol ag ehangder a dyfnder y perthnasoedd rydym ni'n eu sefydlu a'u meithrin gyda phartneriaid yn yr amgylchedd rheoleiddio, gorfodi'r gyfraith a hefyd yn y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym ni'n falch o allu tynnu ar wybodaeth (*intelligence*), data a mewnwleidiad gan y partneriaid hyn yn yr asesiad hwn.

Mae meysydd cyson rhwng ein dogfen llinell sylfaen ni a'r asesiad diweddaraf hwn o'r bygythiad. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd o niwed amlwg i ddefnyddwyr, fel y cemegyn gwenwynig 2,4-dinitrophenol (DNP), a themâu sectoraidd parhaus a gwendidau penodol i gynhyrchion eraill.

Yr agwedd sefydlog arall ar ein canfyddiadau yw'r graddau ymylol y nodir achosion o fentro i'r byd troseddu bwyd yn benodol mewn perthynas â grwpiau troseddu cyfundrefnol (*organised crime*) sy'n gweithredu yn fwy eang, er gwaethaf tystiolaeth o weithgarwch grwpiau o'r fath yn y sector bwyd a diod ac o'i gwmpas.

Rydym ni'n defnyddio'r ddogfen hon i lywio ein gwaith ein hunain i fynd i'r afael â bygythiad troseddau bwyd, ac i gefnogi sut rydym ni'n blaenoriaethu themâu yn y dirwedd hon ac yn datblygu strategaethau i fynd i'r afael â nhw. Trwy sicrhau bod hyn ar gael i'r cyhoedd, fel y gwnaethom gyda'n hasesiad yn 2016, ein nod yw ehangu'r ddeialog o gwmpas troseddau bwyd, gwella pa mor amlwg yw'r bygythiad a, thrwy'r ymwybyddiaeth hon, lliniaru risgiau a niwed cysylltiedig ymhellach, gyda chefnogaeth ein partneriaid.

Wrth i'n hasesiad ddod i ben, mae modd cyfiawnhau'r ffocws parhaus ar y bygythiad go iawn y mae troseddau bwyd yn ei beri i'r DU, a hynny yn ddomestig ac o dramor.

Darren Davies  
**Pennaeth Troseddau Bwyd**  
Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd  
Asiantaeth Safonau Bwyd

Ron McNaughton  
**Pennaeth Troseddau a Digwyddiadau Bwyd**  
Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban,  
Safonau Bwyd yr Alban

Ers drafftio'r asesiad hwn, mae pandemig Covid-19 wedi lledaenu ar draws y byd gan newid ein bywydau beunyddiol. Prin iawn yw'r diwydiannau sydd heb eu heffeithio; ac nid yw'r sector bwyd yn eithriad.

Yn y DU ac yn Ewrop, bu i'r 'cyfnod clo' a mesurau cadw pellter cymdeithasol achosi i lawer o'r gwasanaeth bwyd, neu'r sector 'y tu allan i'r cartref', gau dros dro.<sup>1,2</sup> Newidiodd defnyddwyr eu harferion siopa yn agosach at adref, neu trwy lwyfannau ar-lein a gwasanaethau dosbarthu<sup>3</sup>. Fe wnaeth ansicrwydd arwain at newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, gyda phobl yn gorbrynu (*stockpiling*) rhai cynhyrchion fel pasta sych a llysiau wedi'u rhewi, gan roi straen pellach ar lwybrau cyflenwi manwerthu sy'n gweithredu i raddau helaeth ar sail 'mewn pryd'<sup>4</sup>. Ar ôl y sioc gychwynnol, llwyddodd y sector manwerthu i addasu i ymdopi â'r galw cynyddol hwn, ac mae ymddygiadau prynu wedi dychwelyd i lefelau arferol ers hynny<sup>5</sup>.

Collodd cyflenwyr gwasanaethau bwyd gyfleoedd a manau i werthu eu cynnyrch, ac roeddent yn wynebu anawsterau trosglwyddo i'r byd manwerthu oherwydd bylchau mewn achrediadau neu aelodaeth o gynllun sicrwydd, yn ogystal â ffordd i gynhyrchu pecynnau maint manwerthu<sup>6</sup>. Fe arweiniodd mesurau clo at ostyngiadau dros dro, neu roi'r gorau yn gyfan gwbl, i rai archwiliadau ac arolygiadau, a chyflwyno archwiliadau o bell<sup>7</sup> i sicrhau bod busnesau'n trin ac yn cynhyrchu bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. Roedd yn ymddangos bod yr anghydbwysedd hwn o ran cyflenwad, galw a rheolaethau yn darparu'r amgylchedd perffaith i'r rhai sy'n ceisio cyflawni troseddau bwyd, ond prin fu'r dystiolaeth o gamfanteisio troseddol.

Mae effeithiau COVID-19 yn mynd y tu hwnt i'r sector gwasanaeth bwyd. Amcangyfrifir bod gwerthiannau ar-lein bellach yn cyfrif am rhwng 11.5% a 13% o'r farchnad nwyddau, bron i ddwbl y gyfran am yr un cyfnod yn 2019<sup>8</sup>. Mae gwerthiant bocsys llysiau a ryseitiau wedi cynyddu<sup>9</sup> yn yr un modd â phrynu trwy'r cyfryngau cymdeithasu ar gyfer rhai grwpiau<sup>10</sup>.

<sup>1</sup> Cafodd y cyfnod clo yn y DU ei gyhoeddi ar 23 Mawrth 2020. Cafodd bwytai, bariau a chaffis eu cau ar 20 Mawrth.

<sup>2</sup> Caewyd tua 80% o Fusnesau Llety a Gweithgareddau Gwasanaeth Bwyd dros dro yn ystod y cyfnod clo tan ddechrau mis Mai ([Arolwg Effaith Busnes Covid-19 \(BICS\)](#), Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Mai 2020).

<sup>3</sup> [Cylchoedd 1 a 2 Arolwg Tracio Defnyddwyr ar Covid-19](#), Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Mehefin 2020.

<sup>4</sup> [COVID-19 a chyflenwad bwyd](#), Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA), Gorffennaf 2020.

<sup>5</sup> [Y Strategaeth Fwyd Genedlaethol - Rhan Un](#), Gorffennaf 2020.

<sup>6</sup> [Cynnal Capasiti mewn Busnesau Cadwyn Gyflenwi Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd ar ôl Covid - 'The Squeezed Middle'](#), Bord Gron y Diwydiant Bwyd a Diod, Mehefin 2020.

<sup>7</sup> [Coronafeirws: Tractor Coch yn cwblhau 6,300 o asesiadau o bell](#), FarmingUK, Gorffennaf 2020.

<sup>8</sup> [The Power List 2020: online shopping](#), The Grocer, Mehefin 2020.

<sup>9</sup> [Cynyddodd gwerthiannau Bocsys Llysiau o 111% mewn chwech wythnos o ganlyniad i COVID-19](#), Sefydliad Bwyd, Mai 2020.

<sup>10</sup> [Cylchoedd 1 a 2 Arolwg Tracio Defnyddwyr ar Covid-19](#), Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Mehefin 2020.

Rydym ni'n trafod rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrynu bwyd ar-lein, gan gynnwys heriau wrth reoleiddio a llai o olrhain, yn ddiweddarach yn yr asesiad.

Mae'r pandemig hefyd wedi arwain at gynnydd mewn lefelau isel o fynediad at gyflenwad bwyd i lawer o bobl<sup>11</sup>, gyda nifer y parseli bwyd brys a ddsbarthwyd gan fanciau bwyd i fyny 177% ym mis Mai 2020, o'i gymharu â mis Mai 2019.<sup>12</sup> Bu cynnydd yn y galw am gynhyrchion bwyd rhatach, gan fod incwm llawer o bobl bellach yn is, ac mae hyn yn debygol o greu cyfleoedd ar gyfer troseddau bwyd. Gall pwysigrwydd cynyddol pris wrth wneud penderfyniadau prynu, efallai ar draul ansawdd ac olrhain, gymell masnachwyr diegwyddor i wneud elw o gynhyrchion sydd â gwerth isel neu ddim gwerth o gwbl trwy gynnig cynhyrchion nad ydynt yn addas i'w bwyta gan bobl.

Ers llacio'r cyfyngiadau cloi<sup>13</sup>, mae'r rhan fwyaf o'r sector gwasanaeth bwyd wedi gallu ailagor<sup>14</sup>. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai gymryd hyd at flwyddyn i'r sector gwasanaeth bwyd ddychwelyd i lefelau cyn Covid<sup>15</sup>, hyd yn oed gyda chefnogaeth y llywodraeth i'r sector<sup>16</sup>.

At hynny, mae amrywiadau ym mhrisiau nwyddau a stociau mawr o gynnyrch wedi'i rewi yn parhau. Mae hyn, ar y cyd ag effaith y dirywiad economaidd a diweithdra<sup>17</sup> cynyddol ar batrymau prynu defnyddwyr, yn debygol o greu amgylchedd lle bydd angen ymwybyddiaeth barhaus mewn rhai meysydd. Rydym ni'n parhau i fod yn wiliadwrus o'r cyfleoedd y gallai'r amgylchedd hwn eu cynnig i droseddwyr bwyd ac yn cydnabod yr angen am y gallu i weithredu'n amserol.

Wrth i ni ysgrifennu'r asesiad hwn, mae ail don o heintiau Covid-19 yn parhau i fod yn bosiblwydd. Mae'n debygol y bydd proffil yr aflonyddwch sy'n deillio o ail don yn wahanol i'r hyn yr ydym ni wedi'i weld a'i brofi o'r blaen oherwydd ffactorau tymhorol a thirwedd gymdeithasol ac economaidd sy'n newid. Bydd yr Unedau yn parhau i fonitro effaith unrhyw darfu ar y sector bwyd, ac unrhyw gysylltiadau posibl â throseddau bwyd, wrth i'r sefyllfa esblygu.

<sup>11</sup> [COVID-19 a chyflenwad bwyd](#), Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA), Gorffennaf 2020.

<sup>12</sup> [Dosbarthiad Parseli Bwyd Brys o Fanciau Bwyd Annibynnol yn y DU](#), Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol (IFAN), Gorffennaf 2020.

<sup>13</sup> Tafarndai, bwytaï a safleoedd llety wedi gallu ailagor yn Lloegr o 4 Gorffennaf 2020.

<sup>14</sup> Roedd bron i 80% o Fusnesau Llety a Gweithgareddau Gwasanaeth Bwyd yn masnachu yn ystod pythefnos gyntaf Gorffennaf 2020. ([Arolwg Effaith Busnes Covid-19 \(BICS\)](#), Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Gorffennaf 2020).

<sup>15</sup> [COVID-19 a chyflenwad bwyd](#), Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA), Gorffennaf 2020.

<sup>16</sup> [Ymgyrch Bwyta Allan i Helpu Allan yn Iansio heddiw](#), Gov.UK, Awst 2020.

<sup>17</sup> [Boris Johnson yn rhybuddio bod 'llawer pellach i fynd' i economi'r DU](#), Newyddion y BBC, Awst 2020.

# 1. Crynodeb Gweithredol

---

- 1.1.1 Mae'r asesiad hwn yn ceisio disgrifio bygythiad troseddau bwyd i'r DU a'i buddiannau – twyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd.<sup>18</sup>
- 1.1.2 Mae'n sector cymhleth o droseddu, gyda llawer o agweddau technegol manwl ac amrywiaeth eang o fethodolegau ar waith ynddo. O ganlyniad, gall cynnal dealltwriaeth gyfredol o droseddu a gwendidau y gellir manteisio arnynt fod yn heriol, ac mae'n broses barhaus.
- 1.1.3 Nodir gwahaniaethau rhwng siâp cyfredol y fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â bwyd a diod, a'r dirwedd ehangach o sut mae defnyddwyr a busnesau yn cael eu bwyd a'u cynhwysion. Gall y rhain wneud y dasg o sicrhau bod ein bwyd yn ddiogel, a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, yn fwy heriol mewn rhai meysydd penodol.
- 1.1.4 Fe gydnabyddir nad yw materion twyll, mewn ystyr ehangach, bob amser yn dod o fewn trothwyon blaenoriaeth cyrff gorfodi cyfraith eraill.
- 1.1.5 Yn y dirwedd troseddau bwyd, rydym ni'n nodi bygythiadau sy'n deillio o weithredoedd troseddwr sy'n gweithio o fewn ffiniau'r DU, ochr yn ochr ag eraill sy'n deillio o weithredoedd anghyfreithlon cynhyrchwyr, proseswyr, cyflenwyr neu fasnachwyr sy'n gweithredu dramor. Mewn meysydd eraill mae'r gwahaniaeth rhwng troseddwr yn y DU a'r rheiny dramor yn llai pwysig, er enghraifft gyda chynhyrchion nad ydynt yn mynd yn ddrwg yn cael eu gwerthu ar-lein a'u cludo'n uniongyrchol i'r defnyddiwr.
- 1.1.6 Mae angen i'n hymateb ar y cyd gydnabod y ddeuoliaeth hon o fewn y bygythiad troseddau bwyd, yn ogystal â pherthnasedd deall troseddu rhyngwladol, er mwyn sicrhau diogelwch a dilysrwydd y bwyd rydym ni'n ei fwyta yn y DU. Bydd y ffyrdd y mae angen i'r rheiny sy'n gweithredu yn y diwydiant baratoi ar gyfer y ddwy agwedd hon ar y bygythiad hefyd yn wahanol.
- 1.1.7 Maes arall sy'n amrywio rhwng troseddau bwyd domestig a thramor yw'r graddau y mae presenoldeb grwpiau troseddau cyfundrefnol (*organised crime*) mwy traddodiadol (sy'n symud i faes troseddau bwyd) yn cael ei nodi. Er bod eithriadau, ar y cyfan caiff troseddau bwyd y DU eu cyflawni gan y rheiny sydd eisoes â rôl yn yr economi bwyd a diod, ac mae'r mynediad i farchnadoedd y mae hyn yn ei ddarparu yn amlwg yn gaffaeliad i'r troseddwr hynny.
- 1.1.8 Mae'r asesiad hwn yn cydnabod bod troseddu yn digwydd yn y sector bwyd ac o'i gwmpas heb effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd, ond serch hynny yn arwain at niwed i gymunedau, i bobl agored i niwed ac i fuddiannau ehangach y DU.

<sup>18</sup> Diffinnir troseddau difrifol yn Neddf yr Heddlu 1997 fel trosedd sy'n arwain at elw ariannol sylweddol; a gaiff ei gynnal gan grŵp o bobl sy'n ceisio pwrpas cyffredin; neu sy'n cynnwys y defnydd o drais.







- 1.1.9** Mae'r themâu allweddol yn yr asesiad hwn o fygythiad yn dangos rhywfaint o barhad â'r rhai a nodwyd yn flaenorol gan yr Unedau, er ein bod yn adlewyrchu bod eu hamlygrwydd mewn perthynas â'i gilydd yn rhywbeth sydd wedi newid, ac yr ydym ni'n ei ddeall yn well.
- 1.1.10** Mae'r rhan fwyaf o droseddau bwyd yn ymwneud â dau ddsbarth eang o weithgarwch – naill ai ail-osod deunyddiau sydd ag ychydig neu ddim gwerth yn y gadwyn fwyd fel rhai y gellir eu bwyta a'u marchnata, neu werthu bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid arferol fel cynnyrch sydd â mwy o gyfaint neu briodoleddau mwy dymunol.
- 1.1.11** Wrth ystyried maint ac amrywiaeth yr adroddiadau a ddaw i law, nodwn feysydd â ffocws clir, gyda gwahanol gamau yn y sectorau cig a dofednod yn cael lle amlwg, ochr yn ochr â'r diwydiant pysgod cregyn. O fewn y sectorau hyn, fodd bynnag, mae yna amrywiaeth o gamau cynhyrchu a graddfeydd mentergarwch, ac ni fydd y risg o fewn y sectorau hyn, ac eraill, yn gyson ar draws pob cam a graddfa gyflenwi.
- 1.1.12** Mewn meysydd eraill, difrifoldeb y niwed sy'n deillio o'r troseddu sy'n denu sylw. Yr enghraifft gliriaf o hyn yw'r cemegyn gwenwynig 2,4-dinitrophenol (DNP), sy'n parhau i achosi marwolaethau defnyddwyr y DU wrth iddo gael ei werthu fel llosgwr braster anghyfreithlon. Mae hyn yn gofyn am ymateb gweithredol parhaus gan yr Unedau yn ogystal â thrafodaethau a chydlynu ar draws Llywodraeth Ei Mawrhydi i sicrhau bod y dull traws-lywodraethol mwyaf effeithiol yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â gwerthiant a chyflenwad y sylwedd hwn i'w gymryd gan bobl.
- 1.1.13** Mae yna feysydd rydym ni'n eu hadnabod fel nodweddion allweddol yn y dirwedd bygythiad, ond mae angen i ni wella ein dealltwriaeth ohonynt ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys rôl y rhyngwyd ac e-fasnach mewn troseddau bwyd (nawr ac yn y dyfodol), ac i ba raddau y mae troseddau bwyd yn diwallu'r galw am gynhyrchion mewn cymunedau penodol nad yw wedi'i fodloni fel arall.
- 1.1.14** Wrth i ni edrych ymlaen tuag at ddiwedd y cyfnod pontio nodwn y gofyniad i barhau i fod yn wylidwrus o'r newidiadau i'r ddeinameg o fewn yr economi bwyd a diod, a'r effeithiau y gallai'r rhain eu cael ar bresenoldeb, absenoldeb a graddfa'r cyfleoedd i droseddwyr bwyd.
- 1.1.15** Bydd yr Unedau'n defnyddio'r asesiad hwn i ddatblygu eu blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod, ac i ddatblygu a darparu strategaethau i wrthsefyll y bygythiadau mwyaf niweidiol, ac i gasglu rhagor o wybodaeth lle mae gennym fylchau yn hynny o beth.
- 1.1.16** Wrth fynd i'r afael â throseddau bwyd, mae tair rheng amddiffyn allweddol ar gyfer sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. Mae gan fusnesau bwyd a'r gymuned reoleiddio a gorfodi'r gyfraith rolau i'w chwarae, yn ogystal â defnyddwyr, drwy siopa'n feddylgar a chodi unrhyw bryderon.
- 1.1.17** Byddwn ni'n sicrhau ymgysylltiad parhaus â phartneriaid ac yn parhau i ymrwymo i chwarae rôl ar y llwyfan byd-eang, gan gefnogi'r ymdrechion a nodwn mewn rhannau eraill o'r byd i liniaru'r risgiau i ddefnyddwyr ym mhobman gan y rhai sy'n cyflwyno bwyd anniogel neu annilys i'n cymunedau.









## Asesu'r bygythiad – uchafbwyntiau

Mae'r nwyddau a'r themâu isod yn debygol neu'n debygol iawn o barhau i ddod i'r amlwg mewn gweithgarwch troseddau bwyd yn y DU neu barhau i effeithio ar ein defnyddwyr a'n busnesau.

### Mathau o gynhyrchion

Nwyddau neu thema	Crynodeb o'r asesiad
 <p>Cig coch</p>	<p>Sawl pwynt risg yn y sector cig coch yn amrywio o ddwyn da byw a chig o anifeiliaid sydd wedi'u dwyn neu eu lladd yn anghyfreithlon yn mynd i mewn i gadwyni bwyd, hyd at faterion difwyno (<i>adulteration</i>), camgynrychioli a materion adnabod anifeiliaid. Fodd bynnag, mae data samplu'r diwydiant yn tynnu sylw at lefelau isel iawn o anghysondebau mewn cadwyni cyflenwi ar raddfa fwy mewn perthynas â rhywogaethu (<i>speciation</i>).</p>
 <p>Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd</p>	<p>Mae troseddu sy'n ymwneud â marchnata sylweddau anniogel i'w bwyta/yfed (ac sy'n gysylltiedig â buddion fel llosgi braster, neu briodweddau therapiwtig ar gyfer gwahanol gyflyrau) yn peri llawer o niwed, gan arwain at farwolaethau neu salwch difrifol mewn rhai achosion.</p>
 <p>Pysgod cregyn</p>	<p>Mae cynaeafu anghyfreithlon yn parhau o amgylch arfordir y DU, wedi'i ddilyn â chamgynrychioli tarddiad cynnyrch er mwyn iddo gael mynediad i'r gadwyn fwyd. Nodir gwahanol raddfeydd cynaeafu a llwybrau i'r farchnad ar gyfer cynnyrch anghyfreithlon.</p>
 <p>Alcohol</p>	<p>Nodir y broblem o ddiodydd gwirod (<i>spirits</i>) yn cael eu difwyno ag alcohol diwydiannol, problem a allai beri llawer o niwed ond nad yw'n broblem gyffredin, ynghyd â materion llai niweidiol ond yr un mor anfanteisiol o winoedd ffug ac is na'r safon.</p>
 <p>Cynhyrchion "risg uwch"</p>	<p>Mae problemau yn parhau i gael eu canfod gyda bwydydd a asesir yn gyffredin fel rhai sy'n peri risg uchel o dwyll bwyd oherwydd eu natur neu eu gwerth. Mae'r rhain yn cynnwys olew olewydd a rhai agweddau ar berlysiâu a sbeisys. Mae gweithgarwch yn y meysydd hyn yn ymwneud yn aml â throseddu dramor yn hytrach nag yn y DU.</p>
 <p>Pysgod</p>	<p>Mae pryderon am bysgod yn canolbwyntio ar rhywogaethu pysgod gwyn, er bod samplu'r diwydiant yn nodi lefelau llawer is o ddiffyg cydymffurfio na gwiriadau awdurdodau lleol. Mae defnyddio triniaethau anghyfreithlon ar diwna hefyd yn fater i'w nodi, er ei bod yn anodd mesur maint y bygythiad hwn yn y DU.</p>

## Mathau o gynhyrchion

Nwyddau neu thema	Crynodeb o'r asesiad
 <p>Wyau</p>	<p>Gall camgynrychioli dyddiad, ansawdd a tharddiad oll fod yn ffyrdd o ennill llawer o arian ac mae'n faes lle mae gwybodaeth yn awgrymu bod angen gwylidwriaeth barhaus.</p>
 <p>Cwrdd â'r galw gan gymunedau penodol</p>	<p>Gall technegau fel smyglo a thwyll dogfennau, yn ogystal ag arferion domestig fel lladd anghyfreithlon, hwyluso'r ddarpariaeth o gynhyrchion bwyd sy'n boblogaidd gydag amryw gymunedau yn y DU.</p>
 <p>Camliwio statws premiwm neu darddiad</p>	<p>Nodir camddefnyddio labeli statws premiwm, gan gynnwys tarddiad dynodedig, dull cynhyrchu ardystiedig ac elw ar draul defnyddwyr a busnesau cyfreithlon. Ymhlith y meysydd yr effeithir arnynt mae cynnyrch ardystiedig organig, dynodiadau a ddiogelir gan yr Undeb Ewropeaidd a honiadau gwlad tarddiad.</p>
 <p>Ailgyfeirio cynhyrchion gwastraff</p>	<p>Mae mynediad cynhyrchion i'r gadwyn fwyd na ddylent fod yno ar ei fwyaf nodedig gyda sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ond mae hefyd yn cynnwys cynhyrchion sydd wedi methu gwiriadau ansawdd ond sy'n mynd i mewn i lwybrau gwerthu eilaidd, er iddynt gael eu hanfon i'w dinistrio.</p>
 <p>E-fasnach</p>	<p>Ymhlith y llwybrau y mae'r rhyngrwyd yn galluogi darpariaeth o fwyd twyllodrus a/neu anniogel i ddefnyddwyr (yn ogystal ag eitemau a allai hwyluso troseddau bwyd) mae cyfryngau cymdeithasu, marchnadoedd ar-lein eraill, gwefannau masnachu annibynnol a'r we dywyll.</p>
 <p>Twyll Dosbarthu Ewropeaidd</p>	<p>Modus operandi nodedig sy'n gadael cyflenwyr allan o boced ac sy'n codi pryderon am drin bwyd a geir drwy'r llwybr hwn yn ddiogel, sy'n aml yn cynnwys cig a dofednod. Mae angen gwaith pellach i ddeall graddfa a natur y broblem hon.</p>

## 2. Cyflwyniad

---

### 2.1 Diben a strwythur

- 2.1.1** Mae Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020 (FCSA) yn amlinellu'r ddealltwriaeth gyfredol o faint a natur peryglon troseddau bwyd i'r DU, ac yn amlygu bylchau sylweddol yn y ddealltwriaeth honno. Bydd yn llywio blaenoriaethau strategol ar gyfer ein hymateb yn y dyfodol i droseddau bwyd.
- 2.1.2** Mae hwn yn asesiad ar y cyd a gynhyrchwyd gan Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) o fewn Safonau Bwyd yr Alban, ac Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y ddogfen hon fel yr Unedau.
- 2.1.3** Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar y diffiniad o droseddau bwyd fel "twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd". Mae hyn hefyd yn cwmpasu diod a bwyd anifeiliaid.
- 2.1.4** Mae'r fersiwn hon o'r Asesiad Strategol yn parhau i adeiladu ar ein dealltwriaeth o natur a bygythiad troseddau bwyd y mae'r Unedau wedi'u datblygu ers eu sefydlu yn 2014-15. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys y cyfnod adrodd rhwng 1 Medi 2018 hyd at 31 Awst 2019, er y caiff adroddiadau o du allan i'r cyfnod hwn eu defnyddio lle bo'n rhoi cyd-destun ychwanegol.
- 2.1.5** Diben y ddogfen hon yw:
- (1)** amlygu'r themâu a'r tueddiadau o ran troseddau bwyd;
  - (2)** dangos newidiadau yn ein dealltwriaeth o fygythiad troseddau bwyd y DU;
  - (3)** ein galluogi i flaenoriaethu'r materion mwyaf niweidiol o ran ymateb y DU i droseddau bwyd;
  - (4)** amlinellu'r bylchau mwyaf sylweddol yn ein dealltwriaeth o droseddau bwyd.
- 2.1.6** Ni fydd asesiad 2020 yn ffurfio adolygiad cynhwysfawr o'r ymateb i droseddau bwyd gan reoleiddwyr a gorfodwyr cyfraith. Mae hwn yn asesiad gwybodaeth (*intelligence*), a'i fwriad yw darparu dealltwriaeth lefel uchel o'r bygythiad o droseddau bwyd i'r DU a'i buddiannau.
- 2.1.7** Mae'n ceisio deall sut y caiff technegau penodol eu defnyddio ar draws ystod o gynhyrchion yn y sectorau bwyd, diod a bwyd anifeiliaid, ac ar wahanol bwyntiau yn y gadwyn gyflenwi, yn hytrach nag o fewn mathau unigol o gynhyrchion, neu sectorau penodol o'r economi bwyd a diod.
- 2.1.8** Asesir y ffactorau amgylcheddol cyfredol sy'n effeithio ar droseddau bwyd hefyd, ac ystyrir y berthynas rhwng troseddau bwyd a throseddau cyfundrefnol difrifol. Yna mae'r asesiad yn archwilio'r amrywiol dechnegau troseddau rhyng-gysylltiedig a welir mewn troseddau bwyd, ar draws ystod o nwyddau. Yn olaf, caiff dyfodol troseddau bwyd ei werthuso.

## 2.2 Ffynonellau gwybodaeth a chyfyngiadau

- 2.2.1** Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn yn gyfoethocach nag asesiadau blaenorol, sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth gynyddol o droseddau bwyd a'u cymhlethdodau. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu darlun manwl ac eang o'r dirwedd bygythiad.
- 2.2.2** Mae'r asesiad hwn yn defnyddio gwybodaeth a ddaw i law yn rheolaidd gan ystod o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff gorfodi cyfraith a rheoleiddio, y rheiny sy'n gweithio yn y sectorau bwyd a diod a gwybodaeth a ddarperir i'r Unedau gan aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori gwybodaeth a gyflenwir yn gyfrinachol neu'n ddienw, gan gynnwys trwy'r llinellau adrodd cyfrinachol y mae'r Unedau yn eu cynnig.
- 2.2.3** Er mwyn ategu ein data llinell sylfaen, rhannwyd gofynion gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol. Cynhaliwyd ôl-drafodaethau gydag ystod o arbenigwyr pwnc.
- 2.2.4** Mae'n bwysig nodi y bu cynnydd yn yr wybodaeth a anfonir gan awdurdodau lleol mewn ymateb i'n gofyniad gwybodaeth, gan adlewyrchu'r ymateb cydweithredol i fynd i'r afael â throseddau bwyd.
- 2.2.5** Mae gwybodaeth a gasglwyd gan yr Unedau wedi'i hehangu gan gydweithwyr yr ASB yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi rhoi cipolwg perthnasol o'r systemau bwyd yn y gwledydd hyn.
- 2.2.6** Mae'r asesiad hwn hefyd yn tynnu ar setiau data fel System Gwyliadwriaeth Bwyd y DU (UKFSS) a Chronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban (SFSD), canlyniadau samplu eraill, a'r data sydd ar gael i'r Unedau gan Rwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd (FIIN). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi darlun cyfoethocach (er nad darlun cyflawn) o'r hyn y gallwn ni ei ddysgu o'r gwiriadau samplu a dilysrwydd a gyflawnir gan y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd.
- 2.2.7** Er mai set ddata UKFSS yw'r crynodeb mwyaf cynhwysfawr o waith samplu awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, mae'n bwysig nodi nad yw pob awdurdod yn defnyddio'r system ac felly nid yw'n adlewyrchu'n llawn y gwaith samplu a gynhelir o fewn y tair gwlad hyn.
- 2.2.8** Mae defnyddio adnoddau sganio'r gorwel yn well, gan gynnwys adnoddau pwrpasol a ddatblygwyd gan dîm Gwyliadwriaeth Strategol yr ASB a Grŵp Sganio Gorwel Safonau Bwyd yr Alban, wedi cynyddu ansawdd ein proses barhaus o gasglu gwybodaeth. Mae hyn wedi bod ochr yn ochr â'r defnydd cynyddol o adrodd ar fewnwelediad defnyddwyr, ac ymgysylltu'n benodol â'r diwydiant a'r gymuned academaidd.

### Ymgyrch OPSON

Un nodwedd flynyddol o waith rhagweithiol yr Unedau yw eu cyfraniad (gyda chefnogaeth amhrisiadwy ei phartneriaid) at Ymgyrch OPSON. Mae hwn yn ffocws wedi'i gydlynu'n rhyngwladol ar fwyd a diod ffug neu is na'r safon, dan arweiniad Interpol ac Ewropol.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r gweithgarwch blynyddol wedi cynnwys cydweithio a chydlynu yn seiliedig ar wybodaeth, gan weithio ledled y DU a gyda phartneriaid Ewropeaidd, i dargedu nwyddau y cytunwyd arnynt oherwydd y bygythiadau i ddefnyddwyr a busnesau.

# 3. Amgylchedd Presennol

---

- 3.1.1 Mae troseddau bwyd yn fater sy'n torri ar draws dilysrwydd a diogelwch bwyd. Fel sy'n wir am y mwyafrif o droseddau, mae angen troseddwr sydd â digon o gymhelliant a chyfleoedd.
- 3.1.2 Mae'r Unedau wedi nodi nifer o ffactorau amgylcheddol sy'n berthnasol wrth asesu'r bygythiad troseddau bwyd, o ran sut y gallant greu cyfleoedd i elwa ar droseddau bwyd neu rwystro ymdrechion i ymyrryd.

## Fframwaith Rheoleiddio

- 3.1.3 Mae'r dirwedd rheoleiddio a gorfodi ar gyfer bwyd yn gymhleth ac wedi'i chydblethu. Fel arfer, mae adrannau neu asiantaethau llywodraeth ganolog yn gosod polisiau a chyfeiriad, gyda nifer o wahanol adrannau yn rhannu cyfrifoldeb gan ddibynnu ar natur mater penodol. Caiff rheolaethau rheoleiddio rheng flaen, a chyfran sylweddol o weithgarwch gorfodi, eu cyflawni gan swyddogion awdurdodau lleol, gan swyddogion Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd, sy'n wynebu mwy a mwy o gystadlu rhwng blaenoriaethau a chyfyngiadau mewn adnoddau.
- 3.1.4 Mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd mewn ymateb i'n gofyniad gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn ymwneud â meysydd sy'n defnyddio llawer iawn o amser ac adnoddau ac sy'n gallu atal swyddogion rhag cynnal ymyriadau wedi'u hamserlennu mewn busnesau bwyd cofrestredig. Mae'r prif faterion yn cynnwys gwerthu cynhyrchion bwyd ar-lein, busnesau bwyd yn gweithredu o geginau domestig neu unedau storio heb eu cofrestru, a chynnydd mewn busnesau heb eu cofrestru.
- 3.1.5 Roedd llawer o'r materion hyn yn rhan o adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ar ddiogelwch a safonau bwyd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019.<sup>19</sup>
- 3.1.6 Un pryder mawr a welwyd yn adborth awdurdodau lleol oedd yr amrywiaeth gynyddol mewn busnesau a chynhyrchion bwyd a nodwyd gan rai awdurdodau lleol, a'r heriau y mae hyn yn eu peri. Ymhlith y pryderon yn y maes hwn mae amrywiaeth gynyddol mewn atchwanegiadau (*supplements*) bwyd a chynhyrchion tebyg a gynigir i'w gwerthu, ynghyd â chynnydd mewn siopau sy'n darparu ar gyfer cymunedau penodol, a phryderon am gyfreithlondeb cynhyrchion bwyd wedi'u mewnfurio sydd ar werth mewn busnesau o'r fath.
- 3.1.7 Codwyd y problemau cynyddol y mae llawer o awdurdodau lleol yn eu profi o ran adnoddau yn eu hymatebion ac yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r rhain wedi arwain at ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael, ac mewn rhai meysydd, yn nifer y swyddogion bwyd ymroddedig sydd ar gael i gynnal rheolaethau swyddogol. Yn ei dro, bydd hyn yn lleihau lefel yr wybodaeth a gesglir ar lefel leol, gan amharu ar ddarlun gwybodaeth cyffredinol y DU o ran diffyg cydymffurfiaeth a throseddau bwyd.

<sup>19</sup> [Sicrhau diogelwch a safonau bwyd](#), Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, Mehefin 2019.

- 3.1.8** Efallai y bydd y cyfuniad o adnoddau prin, a nifer cynyddol o broblemau cymhleth i ddelio â nhw, yn ei gwneud yn anoddach i awdurdodau flaenoriaethu sut maent yn nodi ac yn mynd i'r afael â throseddau bwyd. Mae hyn yn arbennig o wir gydag ymchwiliadau twyll, oherwydd cyfyngiadau o ran cyllideb a chapasiti, efallai na fydd ymchwiliadau hir a chymhleth yn ymarferol, neu'n cynrychioli'r ffordd orau o ddefnyddio arian cyhoeddus mewn cyd-destun lleol.
- 3.1.9** Yn rhannau eraill o'r dirwedd ymchwilio, mae'r heriau i heddluoedd y DU wrth ymchwilio i droseddau twyll hefyd wedi'u nodi<sup>20</sup>, sy'n gwneud y gofyniad am y gallu i fynd i'r afael â throseddau twyll bwyd sylweddol y tu allan i'r heddlu yn bwysicach fyth

## Tueddiadau ac Agweddau Defnyddwyr

- 3.1.10** Mae alergenau bwyd wedi parhau i fod yn fater allweddol yn y cyfnod hwn, ac yn rhan o gyfran sylweddol o hysbysiadau digwyddiadau bwyd a gyhoeddir gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth, wedi'i yrru'n rhannol efallai gan y cyfryngau yn adrodd ar ddigwyddiadau proffil uchel.
- 3.1.11** Yn 2018-19, adroddwyd bod 6,456 o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd alergedd bwyd yn Lloegr yn unig<sup>21</sup>, gyda chwe marwolaeth wedi'u cofnodi yng Nghymru ac yn Lloegr yn 2018.<sup>22</sup> Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 9% mewn derbyniadau i'r ysbyty o'i gymharu â 2017-18. Amcangyfrifir bod 2 filiwn o ddiodefswyr alergedd bwyd yn y DU.<sup>23</sup> Ym mis Tachwedd 2019, nododd 12% o'r rheiny a ymatebodd i Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd yr ASB fod ganddynt alergedd neu anoddefiad bwyd.
- 3.1.12** O safbwynt troseddau bwyd, mae'r maes hwn yn gofyn i ni gadw gwylidwriaeth gan nad ydyw, ar hyn o bryd, yn dod i'r amlwg fel bygythiad sydd wedi'i gadarnhau. Mae'r Unedau'n cefnogi gwaith gan dimau eraill yn yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban sy'n ceisio deall beth sydd wrth wraidd digwyddiadau alergedd bwyd yn fwy manwl, yn ogystal â gweithio gyda rhai awdurdodau lleol i ddeall pa mor gyffredin yw materion alergedd bwyd yn eu hardaloedd.
- 3.1.13** Un tueddiad bwyd amlwg yn 2019 oedd y cynnydd parhaus mewn cynhyrchion sy'n cynnwys canabidiol (CBD), yn amrywio o atchwanegiadau bwyd i de â blas a losin. Gall gorfodi cynhyrchion CBD berthyn i un o sawl corff llywodraethol, gan ddibynnu ar y cynnyrch, a phresenoldeb tetrahydrocannabinol (THC).<sup>24</sup>
- 3.1.14** Ym mis Ionawr 2019, eglurwyd bod echdyniadau (*extracts*) CBD yn fwyd newydd, a rhaid i unrhyw echdyniadau a werthir fel bwyd, neu atchwanegiad bwyd, gael eu hawdurdodi. Heb dystiolaeth ddigonol bod symudiad tuag at gydymffurfio, ym mis Chwefror 2020 gosododd yr ASB derfyn amser o ddiwedd mis Mawrth 2021 ar gyfer

<sup>20</sup> [Dioddefwyr twyll 'wedi'u methu' wrth i droseddau 'weithredu heb gosb'](#), Newyddion y BBC, Ionawr 2020.

<sup>21</sup> [Derbyniadau alergedd bwyd yn ôl rhanbarth swyddfa'r llywodraeth, ar gyfer 2013-14 i 2018-2019](#), NHS Digidol, 2019.

<sup>22</sup> [Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru ac yn Lloegr yn 2018](#), Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), 2018.

<sup>23</sup> [Rhaglen Alergedd ac Anoddefiad Bwyd](#), Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Mawrth 2017.

<sup>24</sup> THC yw'r prif gemegyn seicoweithredol sy'n deillio o ganabis ac mae'n sylwedd rheoledig o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

ceisiadau wedi'u dilysu. Dim ond cynhyrchion sy'n gysylltiedig â chais wedi'i ddilysu all aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad cau hwn, ac ni fydd unrhyw gynhyrchion newydd yn cael eu caniatáu heb awdurdodiad ymlaen llaw. Cyhoeddwyd cyngor iechyd rhagofalus ar ddefnyddio CBD hefyd.<sup>25</sup>

- 3.1.15** Mae'n bosibilrwydd realistig bod yr ehangiad hwn yn y farchnad wedi arwain at gamliwio ansawdd neu fudd wrth i unigolion geisio manteisio ar fuddiant defnyddwyr. Mae profion awdurdodau lleol wedi nodi cynhyrchion CBD nad ydynt yn cynnwys unrhyw ganabidiol o gwbl, neu sy'n cynnwys THC ac sydd felly yn debygol iawn o fynd yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae'n bosibilrwydd realistig y bydd y cyfnod hyd nes y bydd cynhyrchion heb eu dilysu yn cael eu tynnu o'r farchnad yn arwain at weithgarwch dwys yn y maes hwn.
- 3.1.16** Yn ychwanegol at y cynnydd mewn cynhyrchion CBD, bu cynnydd hefyd yn yr amrywiaeth o atchwanegiadau bwyd ac 'iechyd' ar y farchnad. Mae nifer o'r cynhyrchion newydd hyn yn cynnwys bwydydd newydd heb eu hawdurdodi, fel modwleiddwyr derbynnedd androgen dethol (SARMs) a dimethylhexanamine (DMHA), neu ychwanegion bwyd anghymeradwy. Bydd lefelau risg yn wahanol a byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i fod yn wylidwrs o gynhyrchion a all beri mwy o niwed yn y maes hwn.
- 3.1.17** Gall cynhyrchion o'r fath fod yn heriol i reoleiddwyr oherwydd cymhlethdod statws cyfreithiol y cynhwysion, a'r fframwaith gorfodi o'u cwmpas (o fewn neu rhwng deddfwriaeth bwydydd newydd, rheoleiddio fferyllol a rheolau am honiadau iechyd a ganiateir). Gall fod yn anodd dangos presenoldeb twyll, ond mae'n debygol bod llawer o'r cynhyrchion hyn yn cael eu camgynrychioli o ran y buddion o'u cymryd, neu ddiogelwch gwneud hynny.
- 3.1.18** Mae cefndir diwylliannol ac arferion crefyddol yn chwarae rhan bwysig wrth ddylanwadu ar y defnydd o fwyd, o ran y math o fwyd a sut mae'n cael ei baratoi.
- 3.1.19** O fewn yr ystod eang o gyfnodau brig (*peaks*) a chyfnodau pant (*troughs*) tymhorol yn y galw am fwydydd penodol, mae rhai pigynnau (*spikes*) sy'n ymwneud â gwyliau mawr neu arsylwadau crefyddol. Nodir cynnydd mewn adroddiadau o droseddau bwyd a gweithgarwch amheus yn y sectorau cig coch a dofednod yn y cyfnod yn arwain at rai gwyliau mawr yn y DU, lle mae pryd o fwyd dathlu a/neu ofynion penodol o ran sut mae'r cig yn cael ei gynhyrchu yn rhan o'r arddeliad neu'r traddodiad. Gellir cwrdd â'r galw sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn yn rhannol neu'n fwy cynhwysfawr trwy roi cynnyrch anghyfreithlon ar y farchnad. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ffactor a welir yn gyson ar draws y DU.
- 3.1.20** Ni ddeallir yn llawn eto effaith gwyliau crefyddol a diwylliannol eraill ar adroddiadau troseddau bwyd, ond mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i asesu'r maes hwn. Mae hyn yn cyd-fynd â bylchau ehangach mewn gwybodaeth o amgylch arferion sy'n gysylltiedig â bwydydd a gaiff eu bwyta'n bennaf gan leiafrifoedd ethnig neu o fewn cymunedau penodol eraill.

<sup>25</sup> [Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gosod dyddiad cau ar gyfer y diwydiant CBD ac yn rhoi cyngor diogelwch i ddefnyddwyr](#), yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Chwefror 2020.

- 3.1.21** Er ein bod ni wedi datblygu ymwybyddiaeth o rai agweddau ar gynhyrchu a gwerthu ‘smokies’<sup>26</sup> a chig llwyn (*bushmeat*)<sup>27</sup>, rydym ni’n gwybod llawer llai am wir raddfa'r farchnad ar gyfer y nwyddau hyn a nwyddau tebyg yn y DU. Ar hyn o bryd, nid oes gennym lawer o hyder yn yr asesiad o fygythiad sy'n gysylltiedig â chynhyrchion sy'n boblogaidd ymysg cymunedau penodol.
- 3.1.22** Mae rhai o'r cynhyrchion hyn yn cael eu mewnfario'n anghyfreithlon trwy'r system bost, mewn bagiau personol, neu heb eu datgan o fewn llwythi (*consignments*) mawr, cymysg. Gall hyn gynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, gan gyflwyno risgiau sylweddol i iechyd pobl ac anifeiliaid.
- 3.1.23** Mae'n anodd cynhyrchu data cywir ar gyfaint y mewnfario hyn, ond rydym ni'n nodi mwy o adroddiadau ar werthu cynhyrchion o'r fath yn y DU ar-lein a fel arall.
- 3.1.24** Mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn debygol o amrywio mewn ymateb i ddiwyddiadau calendr, megis blwyddyn newydd y lleuad – naill ai oherwydd cynnydd yn y galw am gynnyrch, neu oherwydd cynnydd mewn teithio i ac o drydydd gwledydd fel Tsieina, gyda risgiau cysylltiedig o fwy o fewnfario personol.
- 3.1.25** Gall mewnfario anghyfreithlon gynnwys troseddau tollau a thorri rheoliadau. Mae gwerthu bwyd a allai fod yn anghyfreithlon wedi hynny, yn aml gyda labeli nad ydynt yn cydymffurfio, yn bendant yn peri pryder i'r gymuned reoleiddio, ac mewn rhai achosion gall fod yn drosedd bwyd. Rydym ni'n bartneriaid gweithio mewn pwyntiau mynediad er mwyn gallu deall y mater hwn a'r risg bosibl yn well

<sup>26</sup> Cig defaid neu eifr, a gaiff eu lladd ac yna eu llosgi, heb gael eu cigyddu yn iawn.

<sup>27</sup> Cig anifeiliaid annomestig sy'n cael eu gwerthu a'u bwyta fel bwyd.



### Clwy Affricanaidd y Moch

Mae peryglon cynhyrchion bwyd a fewnforir yn anghyfreithlon wedi dod i'r amlwg wrth i Glwy Affricanaidd y Moch ledaenu trwy boblogaethau moch byd-eang. Er bod y tebygolrwydd y bydd cynnyrch heintiedig yn dod i mewn i'r gadwyn bwyd anifeiliaid yn y DU yn isel, mae effaith bosibl y clefyd – yn amaethyddol ac yn economaidd – yn golygu bod Clwy Affricanaidd y Moch yn fater allweddol i lywodraethau ledled y byd.

Nododd profion ar gynhyrchion bwyd a fewnforiwyd yn anghyfreithlon ac a gafodd eu hatafael wrth bwyntiau mynediad yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2019 bresenoldeb rhannau o DNA Clwy Affricanaidd y Moch mewn rhai cynhyrchion.<sup>28</sup>

Ym mis Hydref 2019, llwyddodd ymgyrch ar y cyd gan Defra a Llu Ffiniau'r DU i dargedu mewnfurion anghyfreithlon o gynhyrchion cig mewn bagiau teithwyr ym Maes Awyr Heathrow i atafael 460 cilogram o gig, gan gynnwys 145 cilogram o gynnyrch porc, dros gyfnod o chwe diwrnod.<sup>29</sup> Nid yw'n hysbys a oedd unrhyw un o'r cynhyrchion hyn wedi'i heintio â Chlwy Affricanaidd y Moch, ond mae nifer y digwyddiadau yn tynnu sylw at fagiau personol fel ffordd o fewnforio.

Ym mis Rhagfyr 2019, nodwyd sawl tunnell o gig o Tsieina, gan gynnwys porc, wedi'i guddio mewn llwyth (*consignment*) o lysiau, mewn warws yn yr Eidal (ar ôl dod i mewn i'r UE trwy Rotterdam).<sup>30</sup>

Canfuwyd bod twmplenni Tsieineaidd a gafodd eu hatafael yn Ynysoedd Philippines ddechrau 2020 yn cynnwys DNA Clwy Affricanaidd y Moch, gan awgrymu naill ai bod cynnyrch gwastraff o anifeiliaid wedi'u difa wedi cael ei ailgyfeirio i'r gadwyn fwyd, neu fod anifeiliaid na nodwyd eu bod wedi'u heintio yn cael eu defnyddio i gynhyrchu bwyd.<sup>31</sup>

- 3.1.26** Gall rhai troseddau bwyd gael effaith atchweliadol (*regressive*), gan effeithio'n anghymesur ar gartrefi tlotach. Mae'n bosibl bod cartrefi o'r fath yn gwario cyfran fwy o'u hincwm ar fwyd, ac yn canolbwyntio nid ar ei ddilysrwydd, ond ar fwydo eu hunain a phawb yn eu cartref.
- 3.1.27** Mae data'n awgrymu bod y defnydd o fanciau bwyd yn y DU yn cynyddu'n sylweddol.<sup>32</sup> Gall y cynnydd ymddangosiadol hwn yn nifer y cartrefi sydd angen cymorth roi cyfle i dwyllwyr fanteisio trwy farchnata gwastraff, neu gynhwysion o ansawdd gwael, fel bwyd rhad ond iawn.

<sup>28</sup> [DAERA yn atgoffa pobl ar wyliau - peidiwch â chymryd y risg, gadewch iddo fod](#), Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Gorffennaf 2019.

<sup>29</sup> [Cŵn arogl ar y ffin yn ymuno yn y frwydr yn erbyn clefyd Affricanaidd y moch](#), Gov.UK, Hydref 2019.

<sup>30</sup> [Awdurdodau'r Eidal yn atafael bron 10 tunnell o borc Tsieineaidd](#), Deutsche Welle (DW), Ionawr 2020.

<sup>31</sup> [Canfod clefyd Affricanaidd y moch mewn dwmplenni porc o Tsieina](#), CNN, Ionawr 2020.

<sup>32</sup> [Dosbarthiad Parseli Bwyd Brys o Fanciau Bwyd Annibynnol yn y DU](#), Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol (IFAN), Gorffennaf 2020

- 3.1.28** Gall twyll hefyd effeithio ar y rheiny sy'n cefnogi rhannau mwy anghenus o'n cymdeithasau. Yn ystod haf 2019, nododd awdurdodau Ffrainc fod llawer iawn o gynnyrch cig eidion, a gyflenwyd i nifer o elusennau, wedi'i ddifwyno â sylweddau gan gynnwys soia, braster a chroen anifeiliaid.<sup>33</sup>
- 3.1.29** I'r gwrthwyneb, rydym ni'n nodi galw cynyddol am gynhyrchion o statws premiwm gan ddefnyddwyr mwy cefnog sy'n dilyn ffyrdd o fyw sy'n ystyried iechyd, yr amgylchedd neu foeseg yn fwy.
- 3.1.30** Mae hyn wedi gweld cynnydd yn nifer y defnyddwyr yn y DU sy'n dewis bwyd a diod nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid, o ffynonellau lleol neu rai a gynhyrchir yn foesebol. Gall cynhyrchion o'r fath fod yn agored i droseddau bwyd, gan ei bod yn anodd i ddefnyddwyr gadarnhau cywirdeb yr honiadau a wneir. Mae llawer o ddefnyddwyr yn barod i dalu pris llawer uwch yn seiliedig ar faint maent yn ymddiried mewn labeli, ardystiadau neu arnodiadau cyrff sicrwydd. Mae gwaith ymchwil yr ASB wedi nodi bod 61% o ddefnyddwyr yn cytuno y dylai'r bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd sicrhau ei fod yn ddiogel, yn onest ac wedi'i gymeradwyo'n foesebol, ac wedi nodi tueddiadau cynyddol o ran pryderon defnyddwyr am les anifeiliaid a defnyddio plaladdwyr. Dywedodd bron i dri chwarter y defnyddwyr eu bod yn ymwybodol o effaith ehangach eu dewisiadau bwyd.<sup>34</sup>
- 3.1.31** Mae llawer o gynhyrchion a ddatblygir i dargedu'r farchnad gynyddol hon yn cynnwys cynhwysion drud neu anghyfarwydd sy'n eu gwneud yn agored i dechnegau amnewid a difwyno a welir yn aml. Gall y risg hon gynyddu pan fydd prisiau deunydd crai yn amrywio mewn ymateb i'r galw cynyddol am y cynhyrchion arbenigol hyn ledled y byd.

## Effaith Technoleg


- 3.1.32** Un duedd barhaus yw parodrwydd defnyddwyr y DU i brynu bwyd ar-lein, a sut mae bwyd yn dod yn haws ei brynu a'i werthu trwy lwyfannau ar-lein. Yn 2019, prynodd 32% o ddefnyddwyr rhyngwyd yn y DU fwyd ar-lein, o'i gymharu ag 19% ledled yr UE.<sup>35</sup> Mae'r newidiadau hyn i sut mae masnachu bwyd yn digwydd wedi golygu bod cynnal rheolaethau yn anoddach.
- 3.1.33** Mae **marchnadoedd ar-lein** wedi ei gwneud yn haws gwerthu bwyd ar y we, gan alluogi gwerthwyr i fasnachu yn fyd-eang heb orfod sefydlu siop ffisegol. Fodd bynnag, maent yn cyflwyno heriau i'r methodolegau presennol ar gyfer rheoli a gorfodi bwyd. Yn aml mae'n anodd gweld ble mae lleoliad ffisegol busnes sy'n gwerthu ar-lein, a thrwy hynny nodi pwy sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau.

<sup>33</sup> [Braster, croen, soi ... popeth helbaw am gig yn y stêcs hyn a ddosbarthwyd i gymdeithasau](#), Courrier picard, Mehefin 2019

<sup>34</sup> [Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd yr ASB](#), Adroddiad Cylch 19, Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Chwefror 2020.

<sup>35</sup> [Cynhyrchion a brynwyd gan unigolion ar y we](#), Eurostat, 2019.

Ffigur 1: Croestoriadau rhwng troseddau bwyd ac e-fasnach



- 3.1.34** Mae cynnydd **plattfformau agregu ar-lein** wedi golygu bod mwy o fwyd parod i'w fwyta yn cael ei anfon yn uniongyrchol i ddefnyddwyr o geginau anffurfiol neu rai nad ydynt yn fwytai. Trwy gydol 2019, adroddwyd am achosion o fwyd a werthwyd trwy'r llwyfannau hyn yn dod gan weithredwr busnes bwyd anghofrestredig neu'n cael ei gamgynrychioli fel petai o sefydliad o ansawdd uwch. Mae hyn yn tynnu sylw at y posibilrwydd bod busnes bwyd yn cael ei gofrestru ar lwyfan heb gynnal y gwaith craffu priodol.
- 3.1.35** Mae'r **cyfryngau cymdeithasu** hefyd yn cael eu defnyddio fwyfwy i werthu bwyd – mewn ffordd debyg i farchnadoedd ar-lein, ond gyda llai o archwilio ac olrhain. Mae'r cyfryngau cymdeithasu yn golygu y gall masnachwyr werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr, neu dargedu cymunedau penodol gyda hysbysebion am nwyddau arbenigol. Mae bwyd a gynhyrchir mewn ceginau preswyl yn cael ei werthu trwy'r llwyfannau hyn. Mae'n anodd i ddefnyddwyr sicrhau eu hunain bod cynhyrchion yn ddiogel, yn ddilys ac wedi'u paratoi'n hylan; mae hwn yn faes sydd wedi bod yn destun craffu gan y cyfryngau. Mae'r ASB wedi pwysleisio cyfrifoldebau'r cwmnïau sy'n cynnal cyfryngau cymdeithasu tuag at ddefnyddwyr sy'n prynu bwyd trwy eu llwyfannau.<sup>36</sup>
- 3.1.36** Mae hefyd yn bosibl prynu bwyd ar y **we dywyll**<sup>37</sup> – atchwanegiadau bwyd peryglus neu ffiniol yn bennaf a nwyddau bwyd anghyfreithlon eraill. Mae gwaith gweithredol wedi nodi gwerthiant y cemegyn diwydiannol DNP – sy'n faes o flaenoriaeth i'r Unedau – yn yr amgylchedd hwn, ac sy'n cael ei farchnata i'w gymryd gan bobl.
- 3.1.37** Mae llwybrau prynu ar-lein hefyd yn bodoli ar gyfer deunyddiau fel gwrthfotigau a microsglodion anifeiliaid – nwyddau y gellir eu defnyddio mewn arferion anghyfreithlon fel rhoi hunaniaeth o'r newydd i dda byw neu roi gwrthfotigau i ddofednod yn anghyfreithlon.
- 3.1.38** Mae'r Unedau yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil y twf mewn gwerthu bwyd ar-lein. Mae gwaith dan arweiniad yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, mewn cydgysylltiad â phartneriaid eraill yn y llywodraeth, yn allweddol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd yr Unedau'n parhau i gefnogi'r gwaith hwn, yn arbennig lle mae cyfleoedd i leihau bygythiad ac effaith troseddau bwyd.

<sup>36</sup> [Facebook: Busnesau bwyd cartref yn pryderu corff gwarchod yr ASB](#), Newyddion y BBC, Chwefror 2020.


<sup>37</sup> Mae'r we dywyll yn rhan o'r rhyngrwyd sy'n eistedd ar wahân i'r hyn sydd ar gael wrth bori yn gyffredinol. Mae'n gofyn am feddalwedd arbenigol (ond sydd ar gael yn eang), fel porwr arbennig i gael mynediad ato.

# 4. Troseddau Bwyd a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Diffinnir troseddau bwyd fel “twyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd”. Mae hyn yn wahanol i fynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelwch bwyd (sy'n effeithio'n bennaf ar ddiogelwch bwyd yn unig), mynd yn groes i reoliadau safonau bwyd nad ydynt yn deillio o dwyll, neu droseddau cyfundrefnol (*organised crime*) difrifol sy'n defnyddio bwyd neu fusnesau bwyd i gyflawni troseddau eraill.

Ffigur 2: Goryffwrdd rhwng mathau o droseddau sy'n effeithio ar fwyd



4.1.2 Er bod eithriadau, caiff y rhan fwyaf o droseddau bwyd eu cyflawni gan grwpiau sydd â chefnidiroedd yn y diwydiant bwyd. Yn aml, bydd y grwpiau troseddu bwyd hyn yn manteisio ar fusnes bwyd cwbl neu rannol gyfreithlon fel cyfrwng i werthu cynhyrchion bwyd anghyfreithlon, anniogel neu annilys.

4.1.3 Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol mwy gweithredol yn cymryd rhan yn y troseddau bwyd sy'n digwydd yn y DU, neu'n symud eu gweithgarwch i'r sector hwn.

4.1.4 Nid yw hyn i ddweud nad yw troseddau bwyd yn aml yn gyfundrefnol, yn ddifrifol o ran graddfa a niwed, ac yn gysylltiedig â rhyngweithio sawl unigolyn neu endid, neu na ddylid categoreiddio'r rhai sy'n gyfrifol fel Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol. At hynny, nid yw hyn yn dangos nad yw busnesau bwyd sy'n weithgar yn droseddol, ar brydiau, yn ymestyn eu gweithgarwch i feysydd eraill.

- 4.1.5** Rydym ni'n asesu ei fod yn annhebygol bod llawer o droseddwr bwyd yn gwneud dewis rhagweithiol i newid o weithredu fel gweithredwr busnes bwyd sy'n cydymffurfio, i fod yn un cwbl anghyfreithlon. Mae'n fwy credadwy bod dirywiad yng ngonestrwydd arferion busnes yn digwydd dros amser, gyda rhai gweithredwr busnesau bwyd efallai ond yn troseddu dros dro oherwydd pwysau ariannol, neu gan fod cyfle wedi codi.
- 4.1.6** Yn sicr mae'n wir bod rhai gweithredwr busnesau bwyd yn ymwneud â throeddau bwyd, ond mai dim ond rhan o'u busnes yw hyn, gydag o leiaf rhywfaint o'u gweithgarwch yn parhau'n gyfreithlon.

## 4.2 Manteisio ar y system fwyd

- 4.2.1** Rydym ni'n asesu bod tair prif ffordd y mae Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol traddodiadol yn defnyddio bwyd i gynnal gweithgarwch troseddol; gwyngalchu (*launder*) arian, smyglo, ac fel amgylchedd ar gyfer camfanteisio ar weithwyr.
- 4.2.2** Gwyddys bod grwpiau troseddu yn masnachu mewn nwyddau bwyd i wyngalchu arian.<sup>38</sup> Mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ddilysrwydd neu ddiogelwch bwyd. Mae'n debygol iawn y bydd y diwydiant bwyd bob amser yn cael ei ecsbloetio ar gyfer gwyngalchu arian gan ei fod, mewn manau, yn seiliedig ar arian parod, tra hefyd mewn manau yn cynnwys cadwyni cyflenwi rhyngwladol hir.
- 4.2.3** Mae'n hysbys bod troseddwr yn cuddio nwyddau anghyfreithlon fel cyffuriau, drylliau a nwyddau anghyfreithlon eraill mewn bwyd fel rhan o ymdrech i'w smyglo heb eu canfod. Mae'r union fethodolegau o wneud hyn wedi amrywio, efallai er mwyn osgoi eu canfod.
- 4.2.4** Mae'r defnydd o fwyd fel gorchudd ar gyfer smyglo wedi'i nodi'n aml yn 2019 ac yn fwy diweddar, gydag amrywiaeth o fathau o fwyd yn cael eu defnyddio.<sup>39</sup> Asesir ei fod yn annhebygol iawn bod y cig hwn, neu unrhyw fwyd a ddefnyddir fel rhan o guddio, wedi mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar ôl canfod y cyffuriau. Mae hyn oherwydd cyflwr gwael y bwyd yn gyffredinol a allai arwain at risg uwch o ganfod a pheryglu'r enillion troseddol sylweddol o'r troseddau cyffuriau. Fodd bynnag, lle mae llwythi gorchudd yn cael eu gadael (er enghraifft mewn storfa oer), neu mewn cyflwr gwell, mae hi'n fwy posibl y bydd y deunydd yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.

**Gorffennaf 2019:**  
**Daethpwyd**  
**o hyd i 300**  
**cilogram**  
**o gocên wedi'i**  
**guddio mewn**  
**paledi o gig yn**  
**Harwich.**



<sup>38</sup> Gwyngalchu arian ar sail masnach yw'r broses sy'n defnyddio masnach ryngwladol, luosog a chymhleth i guddio'r broses o symud symiau mawr o arian. Mae'r prosesau hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn deall o ble y daw enillion troseddol yn wreiddiol. Roedd [Asesiad Strategol Cenedlaethol yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol 2020](#) o'r farn bod gwyngalchu arian (*money laundering*) ar sail masnach yn parhau i fod yn fygythiad mawr.

<sup>39</sup> [Fowl play: four jailed for importing hundreds of kilos of cocaine in frozen chicken](#), Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (ATC), Mai 2020.

- 4.2.5** Mae problemau camfanteisio ar weithwyr yn effeithio'n rheolaidd ar amaethyddiaeth, prosesu bwyd, y gwasanaeth bwyd, a chasglu pysgod cregyn. Gall troseddau camfanteisio ar weithwyr ddigwydd ar y cyd â throseddau bwyd, yn fwyaf penodol efallai o ran cynaeafu pysgod cregyn.
- 4.2.6** Mae'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamfanteisio ar Weithwyr wedi nodi cynnydd mewn adroddiadau o gynaeafu pysgod cregyn anghyfreithlon sy'n cynnwys camfanteisio ar weithwyr. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau'n canolbwyntio ar gocos, wystrys, cregyn gleision a gwichiaid (*winkles*), gydag adroddiadau'n awgrymu cysylltiadau posib rhwng meistri gangiau a bwytai Asiaidd.<sup>40</sup> Mae gwaith partner, gan gynnwys diwrnodau gweithredu ar y cyd, yn parhau i wella dealltwriaeth o'r problem hon a ffrydiau gwybodaeth.

### 4.3 Troseddwyr bwyd a throseddwyr cyfundrefnol difrifol

- 4.3.1** Ein hasesiad o hyd yw bod angen gwybodaeth fanwl am, a mynediad at, gyfleusterau cynhyrchu, storio, dosbarthu neu farchnadoedd sefydledig neu rai rhannol gyfreithlon ar y lleiaf i gynnal y mwyafrif o droseddau bwyd. Ein rhagdybiaeth yw bod hyn yn bwysicach na gwybodaeth am dechnegau troseddol yn fwy cyffredinol, neu brofiad ehangach o gysylltiadau o fewn grwpiau troseddu cyfundrefnol. Mae'r casgliad hwn yn parhau i fod yn gadarn i raddau helaeth.
- 4.3.2** Fodd bynnag, mewn rhai rhannau o'r diwydiant, gall rhwystrau rhag mynediad i'r sector bwyd fod yn llai sylweddol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynhyrchion nad ydynt yn mynd yn ddrwg mor gyflym neu rai y gellir eu dosbarthu'n hawdd i gadwyni manwerthu anffurfiol neu raddfa isel, fel alcohol. Mae llwybrau gwerthu ar-lein (boed yn rhai agored neu trwy'r we dywyll) hefyd yn creu cyfleoedd am elw troseddol i'r rhai sydd wedi'u gwreiddio i raddau llai yn yr economi fwyd, er enghraifft trwy archebion post o atchwanegiadau bwyd sy'n amrywio o ran cyfreithlondeb a diogelwch.
- 4.3.3** Efallai mai'r targed bwyd mwyaf deniadol ar gyfer troseddwyr mwy amlwg nad ydynt eisoes wedi'u gwreiddio yn y diwydiant bwyd yw alcohol; yn arbennig gwirodydd (*spirits*). Os gall grŵp troseddu ddistyllu neu brynu cynnyrch fel fodca am y gost leiaf, osgoi talu'r trethi cywir a gwerthu'r cynnyrch ar gyfradd y farchnad neu bris cystadleuol ychydig yn is na hynny, gellir gwneud elw sylweddol (yn enwedig wrth ystyried y buddion ariannol o osgoi talu dyletswydd hefyd).
- 4.3.4** Mae bron yn sicr bod gwirodydd anghyfreithlon yn cael eu gwerthu trwy fanwerthwyr annibynnol i gwsmeriaid sydd â mwy o ddiddordeb yng nghost y cynnyrch, yn hytrach na'i ddilysrwydd. Mae fodca yn aml yn rhan o wybodaeth a ddaw i law a gall fod yn destun pryder oherwydd materion diogelwch os caiff ei gynhyrchu'n amhriodol, er enghraifft trwy gynnwys alcohol diwydiannol.

<sup>40</sup> [Proffil Diwydiant - Pysgod Cregyn](#), yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamfanteisio ar Weithwyr (GLAA), 2019.

- 4.3.5** Yn yr un modd â'r sector bwyd a diod, mae troseddu yn symud fwyfwy ar-lein. Yn ôl yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol, bu twf parhaus mewn masnach droseddol ar y we dywyll, er bod y cyflymder wedi arafu dros y flwyddyn ddiwethaf.<sup>41</sup>
- 4.3.6** Er y gellir gweithredu'n hawdd yn erbyn gwefannau sy'n gwerthu sylweddau annilys neu beryglus ar y rhyngwrwd gyffredinol, gwelir cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwydydd hefyd yn cael eu gwerthu mewn marchnadoedd ar y we dywyll ochr yn ochr â chyffuriau, drylliau a nwyddau anghyfreithlon eraill.
- 4.3.7** Er bod cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwydydd – cynhyrchion anniogel sy'n cael eu gwerthu mewn modd sy'n nodi'n benodol neu sy'n awgrymu eu bod yn addas i'w cymryd – wedi arwain at farwolaethau nifer o ddefnyddwyr yn y DU, nid ydynt o fewn cylch gwaith clir nac yn flaenoriaeth i bartneriaid gorfodi cyfraith y mae eu galluoedd arbenigol yn ymestyn i'r rheiny sy'n gweithredu ar y we dywyll.
- 4.3.8** Mae posibilrwydd realistig y bydd twf y we dywyll yn arwain at werthu mwy o eitemau bwyd mewn amgylcheddau ar-lein lle mae gallu cyrff rheoli i weithredu yn gyfyngedig. Rydym ni'n archwilio'r maes hwn ymhellach er mwyn cadarnhau'r rhagdybiaeth hon.
- 4.3.9** Asesir bod y sector bwyd domestig yn llawer llai agored i droseddu cyfundrefnol difrifol nag a all fod yn wir mewn gwledydd eraill. Rydym ni'n gwybod fod grwpiau Agromafia (fel y'u gelwir) yn chwarae rôl yn niwydiant bwyd yr Eidal ac wedi ceisio manteisio ar y sector economaidd pwysig (a diwylliannol arwyddocaol) hwn. Yn yr un modd, mae'r galw cynyddol ledled y byd am afocados wedi gweld diddordeb cynyddol mewn cynhyrchu bwyd gan garteli troseddu ym Mecsico. Mae'n fwy tebygol y caiff yr effaith yn y DU ei gweld o ran argaeledd neu ddilysrwydd cynnyrch na thrwy grwpiau tebyg yn dod yn rhan o'r sector domestig.
- 4.3.10** Nodir bod ffin y DU gydag ynys Iwerddon yn locws presennol ar gyfer gweithgarwch sy'n seiliedig ar nwyddau sy'n cynnwys troseddwr cyfundrefnol, gan gynnwys bwyd. Bydd ffiniau tir a môr Iwerddon yn faes gwyliaidwriaeth, yn thematig, wrth i'r DU bontio i berthynas economaidd gyda'r UE yn y dyfodol ac i mewn i gyfnod lle mae Gogledd Iwerddon yn parhau i fod â lle ym marchnadoedd yr UE a'r DU.

<sup>41</sup> [Asesiad Strategol Cenedlaethol o Droseddau Difrifol a rhai wedi'u Trefnu](#), Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (ATC), 2019.

# 5. Asesiad o Fygythiad

## 5.1 Trosolwg

5.1.1 Mae'r Unedau wedi nodi saith prif dechneg trosedd bwyd, gan gynnwys y trosedd galluogi o dwyll dogfennau, a ddangosir isod:

Ffigur 3: Y saith math o droseddau bwyd



5.1.2 Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, rydym ni'n ceisio deall ac asesu'r risg a berir gan droseddau bwyd.

5.1.3 Rydym ni'n gweld mai difwyno (*adulteration*), amnewid a chamgynrychioli yw'r technegau troseddu sy'n bresennol ar draws y detholiad ehangaf o gynhyrchion ac o ganlyniad, yn ymddangos fwyaf aml yn ein gwybodaeth (*intelligence*), yn arbennig camgynrychioli.

5.1.4 Mae **dwyn** a gweithgarwch cysylltiedig yn tueddu i fod ar ddechrau'r gadwyn gyflenwi troseddau bwyd – a gall hefyd gynnwys **dargyfeirio gwastraff** lle mae cynnyrch wedi'i ddarparu i gwmni er mwyn cael ei wared, ond yna mae'n cael ei werthu ymlaen. Mae'r pethau hyn yn aml yn arwain at **prosesu anghyfreithlon**. Yn ogystal ag arwain at gamgynrychioli ansawdd, gall dargyfeirio gwastraff hefyd arwain at addasu a chamgynrychioli dyddiadau para bwyd anawdurdodedig.

5.1.5 Yn yr un modd, mae **amnewid** a **difwyno** yn effeithio ar gynhyrchion cyn y pwynt gwerthu. Gall hyn ddigwydd yn agos at y pwynt cynhyrchu cynradd (dramor o bosibl), tra bod y cynnyrch dan reolaeth perchennog neu broseswr canolraddol, neu yn y sefydliad manwerthu neu arlwygo a fydd yn cyflenwi'r cynnyrch i'r defnyddiwr terfynol.


5.1.6 **Camgynrychioli** yw'r agwedd olaf ac amlycaf ar anonestrwydd gan weithredwr busnes bwyd, sy'n golygu cyflenwi cynnyrch is na'r safon i ddefnyddiwr heb fod



ganddynt unrhyw syniad. Yn y pen draw, dyma sy'n cuddio diffygion anweledig cynnyrch rhag llygad y defnyddiwr arferol. Gan fod elfen o gamgynrychioli i bron pob trosedd bwyd, efallai nad yw'n syndod mai dyma'r agwedd y mae gan yr Unedau'r mwyaf o wybodaeth yn ei chylch.

**5.1.7** Fodd bynnag, er ei fod yn gyffredin, nid oes angen camgynrychioli bob tro er mwyn elwa ar droseddau bwyd. Gall defnyddiwr gwybodus resymoli prynu cynnyrch anghyfreithlon os yw'r cynnyrch, neu'r pris, yn ddigon deniadol – a maddau mwy am unrhyw ddiffygion ansawdd o ganlyniad i'r pris.

**Ffigur 4: Diagram proses o'r mathau o droseddau bwyd**



- 5.1.8** Mae pob adran o'r bennod hon yn ceisio canfod beth sy'n gyffredin rhwng y gwahanol dechnegau a drafodir, ynghyd ag awgrymu lle caiff y risg o fewn pob maes ei hystyried i fod y mwyaf difrifol.
- 5.1.9** Nid yw'r bennod hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl faterion sy'n hysbys i'r Unedau ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae'n asesiad o'r themâu amlycaf yn y dirwedd troseddau bwyd.
- 5.1.10** Tra bod technegau troseddau bwyd yn ddefnyddiol ar gyfer nodi a chodio gweithgarwch, rydym ni'n nodi ei bod yn anghyffredin i droseddau bwyd gynnwys un o'r technegau yn unig.

## 5.2 Dwyn




**Dwyn:** cymryd meddiant o gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid yn anonest oddi wrth eu perchennog cyfreithiol gyda'r nod o elwa'n ariannol o'u defnyddio neu eu gwerthu.

- 5.2.1** Mae trosedd feddiangar (*acquisitive crime*) yn y diwydiant bwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddwyn ffynonellau protein, fel pysgod cregyn a da byw, a bwydydd sydd â gwerth uchel wrth eu dosbarthu. Mae natur y drosedd, a'r risgiau cysylltiedig, rhwng y meysydd hyn yn amrywio'n sylweddol.
- 5.2.2** Gall bwyd sydd wedi'i gaffael yn anghyfreithlon, gan gynnwys yr hyn a gynhyrchir o anifeiliaid sydd wedi'u dwyn, fod yn risg diogelwch bwyd sylweddol i ddefnyddwyr gan ei fod yn annhebygol o gael ei drin, ei brosesu neu ei gludo yn unol â gofynion diogelwch a hylendid bwyd, neu fod yn destun rheolaethau swyddogol. Mae risgiau o'r fath yn arbennig o uchel gyda chynhyrchion a fyddai fel arfer yn destun proses buro (fel pysgod cregyn), neu gyfnod tynnu'n ôl cyn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd (er enghraifft da byw sy'n cael eu trin â rhai meddyginiaethau milfeddygol).
- 5.2.3** Gan mai dim ond trwy werthu'r cynnyrch ymlaen y ceir y budd ariannol o'r gweithgareddau hyn, mae bron yn sicr bod methodolegau troseddau bwyd eraill, yn bennaf prosesu anghyfreithlon a thwyll dogfennau, yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r dwyn. Gall hyn fod yn ychwanegol at gamgynrychioli pan fydd y cynnyrch yn cyrraedd defnyddwyr neu'n mynd i mewn i gadwyni cyflenwi cyfreithlon.

**Mae'r yswiriwr gwledig, NFU Mutual, yn amcangyfrif y bu cynnydd o 20% mewn troseddau meddiangar yn sector da byw y DU rhwng 2017 a 2019, gan gostio oddeutu**

**£3 miliwn yn 2019**



- 5.2.4** Mae **dwyn da byw** yn effeithio ar ardaloedd gwledig ledled y DU, ac mae troseddwyr yn dangos trefn gynyddol yn eu harferion. Mae'r yswiriwr gwledig, NFU Mutual, yn amcangyfrif y bu cynnydd o 20% mewn troseddau meddiangar yn sector da byw y DU rhwng 2017 a 2019, gan gostio oddeutu £3 miliwn yn 2019.<sup>42</sup>
- 5.2.5** Mae'n debygol nad yw pob achos o ddwyn da byw yn cael ei adrodd i'r awdurdodau perthnasol. Mae'n bosibl nad yw gwartheg a hysbysir eu bod 'ar goll' bob amser yn cael eu cofnodi fel trosedd, ac felly efallai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfredol.
- 5.2.6** Nid oes dealltwriaeth lawn o'r broses o werthu da byw sydd wedi'u dwyn ymlaen neu eu prosesu i mewn i'r gadwyn fwyd, a ph'un a yw hyn yn cael ei wneud trwy lwybrau

<sup>42</sup> [Cyfnod heriol i gefn gwlad, Adroddiad Troseddu Gwledig 2020](#), NFU Mutual, 2020.

cyfreithlon neu gudd. Gall mynediad a sefydlwyd yn ddiweddar i ddata adnabod a symud gwartheg ar gyfer heddluoedd olygu bod modd nodi rhai llwybrau i'r farchnad.



### Astudiaeth achos: Ymgyrch STOCK

Rhwng mis Chwefror 2019 a mis Awst 2019, fe wnaeth tasglu amlasiantaethol, dan arweiniad Heddlu Swydd Northampton, ati i ymchwilio i ddigwyddiad o ladd a chigydda dros 150 o ŵyn a defaid, ynghyd â lladrad 250+ o ddefaid ac ŵyn eraill yn yr un rhanbarth.<sup>43</sup> Ym mis Hydref 2019, cafodd tri dyn eu cyhuddo mewn cysylltiad â'r gweithgarwch hwn gan ymddangos yn y llys i wynebu cyhuddiadau o gynllwynio i ddwyn. Plediodd pawb yn euog yn ddiweddarach a chael dedfrydau o garchar ym mis Mawrth 2020.

Er mai mater i'r heddlu yw achosion o ddwyn da byw, nid felly cigyddiaeth a gwerthu cig yn y gadwyn fwyd wedi hynny. Mae hyn yn codi pryderon diogelwch bwyd oherwydd y ffordd y mae'r cig wedi'i brosesu a'i drin. Codwyd pryderon ychwanegol ynghylch gweddillion meddygaeth filfeddygol bosibl mewn cig o rai o'r anifeiliaid a gafodd eu dwyn, a allai beri risg i iechyd y cyhoedd os cânt eu bwyta.

- 5.2.7 Rydym ni'n asesu bod **potsio** yn y DU yn effeithio ar nifer o rywogaethau, gyda rhywogaethau ceirw, pysgod a physgod cregyn ymhlith y targedau mwyaf cyffredin.
- 5.2.8 Mae **cynaeafu pysgod cregyn yn anghyfreithlon** mewn rhanbarthau arfordirol ledled y DU yn parhau i fod yn gyffredin iawn mewn adroddiadau, gyda choccos, cregyn bylchog Manila, cyllyll-môr (*razor clams*), ac wystrys yn cael eu nodi fel y rhywogaethau a dargedir amlaf.
- 5.2.9 Mae gwybodaeth a ddaeth i law o fewn y cyfnod adrodd ar gyfer yr asesiad hwn wedi nodi bod cynaeafu anghyfreithlon yn digwydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, De Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr ac o amgylch arfordiroedd yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 5.2.10 Mae'r dulliau cynaeafu a nodir yn cynnwys casglu â llaw a chynaeafu mewn cychod, gan gynnwys defnyddio methodolegau cynyddu cynhyrchiant fel llusgrwydo (*dredge*) neu electro-bysgota yn anghyfreithlon.<sup>44</sup> Mae'n bosiblwydd realistig bod rhywfaint o'r gweithgarwch hwn yn gysylltiedig â cham-drin llafur gan grwpiau troseddu cyfundrefnol. Adroddir am lefelau amrywiol o raddfa a threfniadaeth.
- 5.2.11 Mae cynaeafu pysgod cregyn anghyfreithlon yn digwydd mewn gwelyau wedi'u dosbarthu a rhai heb eu dosbarthu neu welyau caeedig. Gall bwyta pysgod cregyn o'r lleoliadau hyn fod yn fygythiad sylweddol i iechyd defnyddwyr, ond mae ein partneriaid rheoleiddio yn weithgar o ran canfod a tharfu ar y gweithgarwch hwn.
- 5.2.12 Mae dealltwriaeth yr Unedau o'r amrywiaeth o lwybrau y mae pysgod cregyn sydd wedi'u cynaeafu'n anghyfreithlon yn dod i mewn i'r farchnad wedi cynyddu'n sylweddol ers yr asesiad diwethaf.

<sup>43</sup> [Operation Stock](#), Heddlu Swydd Northampton, 2020.

<sup>44</sup> Ar 01/02/2018, lansiodd Llywodraeth yr Alban dreial electro-bysgota ar gyfer cynaeafwyr cymeradwy, mewn perthynas â chynaeafu cyllyll-môr (*razor clams*).

- 5.2.13** Mae tri llwybr cyffredin i'r farchnad: gwerthu i broseswyr masnachol; allforio dramor yn uniongyrchol a gwerthu i fusnesau bwyd lleol, neu'r rheiny sy'n arlwygo i gymunedau penodol.
- 5.2.14** Mae'n debygol y gall llwybrau trosglwyddo ymlaen amrywio gan ddibynnu ar dreftadaeth ddiwylliannol y rhai sy'n cydlynu'r gweithgarwch cynaefu, a phosibilrwydd realistig bod yr ardal lle mae'r gweithgarwch yn digwydd (a'i demograffeg leol) yn cael rhywfaint o effaith ar hyn.
- 5.2.15** Mae gweithgarwch amlasiantaethol cydgysylltiedig, gyda chefnogaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, mewn nifer o leoliadau o amgylch arfordiroedd Cymru a Lloegr, a gweithgarwch tebyg yn yr Alban, gan Uned yr Alban wedi llwyddo i gryfhau perthnasoedd a ffrydiau gwybodaeth rhwng y gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r maes hwn.
- 5.2.16** Gall llusgrwydo ac electro-bysgota anghyfreithlon effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd trwy newid priodweddau gwely'r môr yn ddramatig, yn ogystal â lleihau stociau poblogaeth a gaiff eu targedu, a all fod yn araf i'w hadfer. Mae'n bosibilrwydd realistig y gallai'r gostyngiad hwn mewn poblogaethau pysgod cregyn lleol arwain at symud cynaefu anghyfreithlon i ranbarthau arfordirol eraill.
- 5.2.17** Er ei bod yn debygol bod **potsio anifeiliaid hela gwyllt** yn parhau i fod yn broblem, ychydig o adroddiadau a gafwyd ar y mater hwn.
- 5.2.18** Mae'r adroddiadau a ddaeth i law yn canolbwyntio'n bennaf ar botsio ceirw. Asesir mai'r llwybr mwyaf tebygol i gig carw wedi'i botsio fynd i mewn i'r gadwyn fwyd yw trwy werthiannau uniongyrchol, o ddrws i ddrws i fusnesau fel bwytai, tafarndai a chigyddion. Nid yw'n hysbys a yw gwerthiant cig carw wedi'i botsio'n anghyfreithlon bob amser yn lleol i'r lleoliad potsio, neu a yw potswyr yn teithio ymhellach i ffwrdd i werthu'r carcassau.
- 5.2.19** Un bwlch yn yr wybodaeth gyffredol am hyn yw'r graddau y mae'r fasnach o helgig wedi'i botsio yn cael ei alluogi gan dwyll posibl a gyflawnir trwy gamddefnyddio'r dogfennau gofynnol sy'n gwirio cyflwr carcassau a dyddiadau lladd, neu lenwi'r dogfennau hyn gyda manylion ffug.
- 5.2.20** Mewn achosion o ddwyn mwy uniongyrchol, mae cynhyrchion bwyd yn aml yn cael eu targedu i'w dwyn wrth iddynt gael eu dosbarthu, gyda gwerth o leiaf £5.5 miliwn o fwyd yn cael ei ddwyn o gerbydau yn y DU rhwng mis Ionawr a mis Medi 2019.<sup>45</sup> Yn 2019, adroddwyd mai alcohol oedd y cynnyrch bwyd a dargedwyd amlaf mewn lladradau o gerbydau dosbarthu. Mae'n debygol iawn bod troseddwr yn targedu alcohol gan ei fod yn nwydd gwerth uchel ac nad yw'n mynd yn ddrwg. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol arno, ac nid oes angen ei brosesu ymhellach er mwyn ei werthu ymlaen am elw.
- 5.2.21** Mae **dwyn hunaniaeth** yn fater parhaus o fewn troseddau bwyd. Cyfeirir yn gyffredin at ddefnydd twyllodrus o hunaniaeth busnes cyfreithlon, er budd ariannol trwy osod gorchmynion twyllodrus gyda chyflenwyr tramor, fel Twyll Dosbarthu Ewropeaidd. Gofynnir i fusnesau bwyd cyfreithlon gyflenwi meintiau o gynnyrch, gan gredu mai'r cwmni dilys a osododd yr archeb. Mae'r nwyddau'n cael eu dargyfeirio wrth eu cludo, ac ni thelir amdanynt.

<sup>45</sup> Yr Awdurdod Diogelu Asedau Trafnidiaeth (TAPA)

- 5.2.22** Mae bron yn sicr bod bwyd sy'n cael ei ddwyn trwy Dwyll Dosbarthu Ewropeaidd yn cael ei roi yn y gadwyn fwyd trwy ddefnyddio technegau troseddau bwyd eraill, gan gynnwys camgynrychioli a thwyll dogfennau.
- 5.2.23** Mae hefyd yn bosibilrwydd realistig nad yw bwyd sydd wedi'i ddwyn yn cael ei drin, ei storio na'i gludo'n briodol, ac felly gallai beri risg diogelwch bwyd. Bydd y risg hon yn amrywio'n sylweddol, yn seiliedig ar y defnydd dilynol arfaethedig o'r cynnyrch, a'r llwybrau y caiff ei ddosbarthu drwyddynt.
- 5.2.24** Dylid hysbysu troseddau Twyll Dosbarthu Ewropeaidd i Action Fraud<sup>46</sup>, er mwyn rhoi i'r gymuned gorfodi cyfraith ddealltwriaeth lawn o faint y broblem hon. Mae symud cynnyrch ymlaen i'r gadwyn fwyd yn drosedd bwyd gan nad oes modd ei olrhain yn iawn.
- 5.2.25** Mae'n debygol iawn bod troseddau Twyll Dosbarthu Ewropeaidd yn cael eu tan-adrodd, ac felly nid yw gwir raddfa neu natur y mater yn y DU yn hysbys ar hyn o bryd. Ni fu'n bosibl cael set ddata drylwyr am raddfa a maint y broblem hon, ond rydym ni'n datblygu partneriaethau i wella hyn.
- 5.2.26** Yn yr achosion y mae'r Unedau'n ymwybodol ohonynt, mae Twyll Dosbarthu Ewropeaidd wedi targedu amrywiaeth o fwydydd. Mae eitemau uchel eu gwerth fel cig coch, dofednod ac wyau yn cael eu targedu'n aml. Bydd troseddwyr fel arfer yn dynwared cyflenwr neu weithgynhyrchwr adnabyddus yn y DU i roi cyfreithlondeb i'w harcheb, a gallant ecsbloetio cyflenwyr tramor a allai, fel rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, ei chael yn anoddach adnabod archebion sy'n cael eu cyflwyno'n llai proffesiynol.
- 5.2.27** Mae rhoi'r gallu i fusnesau bwyd adnabod ac atal twyll o'r math hwn yn faes ffocws pwysig ar gyfer gweithgarwch atal troseddau bwyd.

<sup>46</sup> Action Fraud yw canolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll a seiberdroseddu. Heddlu Dinas Llundain sy'n cynnal y gwasanaeth yn eu rôl fel yr arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer troseddau economaidd.

## 5.3 Prosesu Anghyfreithlon



**Prosesu Anghyfreithlon:** lladd, paratoi neu brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio perthnasol.

- 5.3.1** Yng nghyd-destun troseddau bwyd, gall prosesu anghyfreithlon gynnwys defnyddio technegau neu brosesau anghymeradwy, neu gynhyrchu'r bwyd y tu allan i sefydliad cymeradwy.
- 5.3.2** Mae bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir fel hyn yn peri risg sylweddol i iechyd defnyddwyr, oherwydd absenoldeb gweithdrefnau diogelwch gorfodol, a rheolaethau swyddogol.
- 5.3.3** Gwelwyd digwyddiadau o brosesu anghyfreithlon yn y sectorau cig coch, dofednod, pysgod cregyn, wyau a bwyd anifeiliaid. Mae'n debygol iawn y bydd angen cyflawni troseddau bwyd pellach fel camgynrychioli ansawdd neu ddyddiad, a thwyll dogfennau, i roi'r bwyd ar y farchnad oni bai ei fod yn cael ei werthu i'r rhai sy'n gwbl ymwybodol o wir darddiad y bwyd ac yn derbyn hyn, oherwydd efallai ei fod wedi'i brisio'n rhesymol iawn.
- 5.3.4** Er ei bod bron yn sicr bod y sectorau cig coch a dofednod yn rhannu gwendidau cyffredin mewn agweddau ar droseddau bwyd megis camgynrychioli dyddiad a tharddiad, nid oes llawer o adroddiadau wedi dod i law mewn perthynas â phrosesu anghyfreithlon yn y sector dofednod.
- 5.3.5** Nid ystyrir bod prosesu dofednod yn anghyfreithlon yn fygythiad sylweddol ar hyn o bryd gan fod lladd dofednod ar unrhyw raddfa nad yw'n raddfa ddiwydiannol yn heriol yn fasnachol.
- 5.3.6** Mae gwybodaeth (*intelligence*) ynghylch prosesu anghyfreithlon yn dod o fewn y categorïau canlynol i raddau helaeth:
- Lladd anghyfreithlon:** Lladd anifeiliaid mewn lladd-dy anghymeradwy neu gan laddwr anghymeradwy.
- Sefydliad heb ei gymeradwyo:** Defnyddio safle nad yw wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo gan yr awdurdod cymwys ar gyfer cynhyrchu bwyd.
- Gweithgarwch heb ei gymeradwyo:** Cyflawni gweithgarwch mewn safle cymeradwy, nad yw'r safle wedi'i gymeradwyo'n benodol ar ei gyfer.
- 5.3.7** Pan fydd prosesu anghyfreithlon yn digwydd mewn safle cymeradwy, mae'n debygol y bydd yn digwydd ar y cyd ag enghreifftiau eraill o ddiffyg cydymffurfio rheoliadol. Mae hyn wedi'i weld mewn sefydliadau bach a mawr.

### Safleoedd Cymeradwy

Mae Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd (CE) 853/2004 a (CE) 852/2004 yn nodi'r gofynion y mae angen i sefydliad eu bodloni er mwyn cael ei gymeradwyo. Mae'r broses gymeradwyo wedi'i chynnwys yn Rheoliad (UE) 2017/625.

Rhaid i awdurdodau cymwys sefydlu gweithdrefnau sy'n adlewyrchu'r broses gymeradwyo a ddisgrifir yn Rheoliad (UE) 2017/625, sef gweithdrefnau i bennu p'un a yw gweithredwr busnes bwyd yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau (CE) 852/2004, 853/2004 ac agweddau eraill ar gyfraith bwyd, gan gynnwys lles anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

- 5.3.8** Er bod y rhan fwyaf o'r prosesu anghyfreithlon yn cael ei wneud gan endidau nad ydynt erioed wedi ceisio cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, mae rhai achosion lle mae gweithredwyr busnesau bwyd a arferai weithredu'n gyfreithiol yn dechrau prosesu'n anghyfreithlon (pan fydd busnes yn colli cymeradwyaeth i weithredu, ond mae'n parhau i fasnachu). Fel arall, gall gweithredwr sy'n cydymffurfio ychwanegu at elw o weithgarwch cyfreithiol gydag incwm o fusnes anghyfreithlon. Mae'r ddau senario yn peri risg y bydd bwyd anaddas yn dod i mewn i'r gadwyn fwyd o ganlyniad i absenoldeb y rheolaethau cywir.
- 5.3.9** Rydym ni'n asesu efallai na fydd y broses bresennol ar gyfer tynnu cymeradwyaeth yn ôl yn ffordd effeithiol o liniaru'r risgiau a berir gan sefydliadau cig nad ydynt yn cydymffurfio. Dim ond os cânt eu nodi fel busnes bwyd anghofrestredig y gall gweithrediad parhaus ddod i sylw rheoliadol pellach ac mae cyswllt rhwng gwahanol rannau o'r dirwedd reoleiddio yn bwysig yn hyn o beth.
- 5.3.10** O fewn y cyfnod adrodd, mae'r rhai sy'n ceisio osgoi craffu wedi manteisio ar wendidau o fewn y mecanweithiau cymeradwyo cyfredol ar gyfer sefydliadau cig, a hynny trwy greu cwmnïau 'pheonix'. Mae hyn yn caniatáu i weithredwyr busnesau bwyd sydd wedi colli eu cymeradwyaeth sefydlu busnes newydd a gwneud cais am gymeradwyaeth o dan hunaniaeth newydd neu gyda chyfarwyddiaeth wahanol.
- 5.3.11** Mewn rhannau o'r DU, mae bron yn sicr bod nifer o sefydliadau cymeradwy yn lladd yn anghyfreithlon y tu allan i oriau ar adegau lle mae galw mawr gan ddefnyddwyr, yn arbennig o amgylch gwyliau crefyddol a diwylliannol mawr. Dylid nodi nad yw hyn yn cael ei nodi'n eang mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â sefydliadau yn yr Alban, a hefyd bod llawer o ladd-dai yn gweithredu'n gyfreithiol y tu allan i'r oriau arferol yn ystod y cyfnodau hyn, gan weithredu'r rheolaethau swyddogol angenrheidiol.
- 5.3.12** Mae **lladd anghyfreithlon** wedi bod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn adroddiadau a ddaw i law'r Unedau, yn fwyaf nodedig lladd a chigydda defaid ac ŵyn yng nghanolbarth Lloegr. Mae'r amodau hylendid gwael amlwg sy'n gysylltiedig â'r arferion hyn yn cynyddu'r risg i'r defnyddiwr.
- 5.3.13** Yn yr un modd, gwelir cynnydd mewn lefelau risg mewn perthynas â phrosesu pysgod cregyn wedi'u cynaeafu'n anghyfreithlon. Mae adroddiadau wedi nodi bod pysgod cregyn yn cael eu tynnu o'u cregyn mewn meintiau masnachol ar arfordiroedd y DU, yn agos at ardaloedd cynaeafu hysbys, mewn amodau anhylan.

- 5.3.14** Mae'n debygol bod y gweithgarwch hwn yn cael ei yrru gan ba mor hawdd yw hi i gludo pysgod cregyn sydd wedi'u tynnu o'u cregyn, a'r galw am gynhyrchion wedi'u tynnu o'u cregyn o fewn cymunedau Dwyrain Asia a'r Môr Tawel.
- 5.3.15** Mae'r rhan fwyaf o brosesu anghyfreithlon yn cael ei yrru gan gymhelliant ariannol, trwy gostau is wrth weithredu y tu allan i unrhyw gymeradwyaeth, neu drwy gynyddu cyflenwad a gwerthiant. Mewn rhai achosion, gall fod i ddiwallu anghenion defnyddwyr pan na ellir cynhyrchu'r cynnyrch o'u dewis yn gyfreithiol yn y DU.
- 5.3.16** Mae 'smokies' yn cael eu cynhyrchu yn gyffredin ar gyfer cymunedau penodol sydd wedi'u lleoli yn bennaf yn Llundain ac ardaloedd cyfagos. Maent yn peri risg iechyd difrifol i'r defnyddiwr oherwydd y dulliau cynhyrchu a chludo.
- 5.3.17** Mae'n debygol iawn bod y broses o'u cynhyrchu yn cael ei hwyluso trwy ddwyn a lladd defaid yn anghyfreithlon.
- 5.3.18** Yn 2017, roedd y darlun gwybodaeth yn awgrymu bod cynhyrchu smokies yn weithgarwch a oedd wedi'i ganoli yng Nghymru, gyda charcasau yn cael eu cludo i Lundain i'w gwerthu. Mae gwybodaeth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn awgrymu bod cynhyrchu smokies bellach wedi'i nodi ar ryw lefel mewn rhanbarthau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, heb unrhyw blethwaith cynhyrchu sengl. Mae'r arfer hwn hefyd wedi dod i sylw awdurdodau diogelwch bwyd Iwerddon.
- 5.3.19** Ni ddeallir yn llawn pam mae arallgyfeirio mor sylweddol wedi digwydd mewn lleoliadau cynhyrchu, ac nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu newid sylfaenol yn y cymunedau sy'n prynu smokies. Mae gwybodaeth gyfyngedig yn dangos bod ffermwyr yn cyflenwi anifeiliaid yn fwriadol i gynhyrchu smokies, er nad yw'n ymddangos bod hyn yn eang.



#### Astudiaeth achos: Erlyniadau smokies

Ym mis Medi 2019, clywodd gwrandawriad Deddf Enillion Troseddau bod cynhyrchwr 'smokies' o Gymru wedi gwneud mwy na £100,000 o'u cynhyrchu a'u gwerthu. Cafodd ei orchymyn i dalu £30,000 tuag at gostau ei erlyniad – mae hyn yn ychwanegol at ddedfryd o wyth mis o garchar a ohiriwyd am ddwy flynedd a gafodd yn 2017.

Er ei bod yn bosibl bod arestio ac erlyn yr unigolyn hwn yn 2017 wedi bod yn effeithiol o ran tarfu ar gyflenwad a dosbarthiad cig 'smokies' o Gymru i ardaloedd eraill o'r DU, mae ffrydiau cynhyrchu eraill wedi'u sefydlu. Cafodd grŵp o dri dyn a ddarganfuwyd yn cynhyrchu 'smokies' yn Sir Benfro ym mis Ionawr 2019 ddedfrydau o garchar wedi'u gohirio ym mis Medi 2020.

- 5.3.20** Yn sector wyau'r DU, mae adroddiadau wedi manylu ar **brosesu wyau yn anghyfreithlon**, sef golchi 'wyau llawr' er mwyn gallu eu camgynrychioli wedi hynny fel wyau Dosbarth A. Oherwydd lefelau uchel o halogiad neu ddifrod i'r cregyn, ni ellir gwerthu wyau llawr fel rhai Dosbarth A, a rhaid eu torri a'u pasteureiddio. Nid ydym ni'n deall maint yr arfer hwn yn llawn. Cyfrifoldeb yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yw arolygu marchnata wyau.



- 5.3.21 Mae pryderon lles fel gor-stocio siediau dofednod hefyd wedi'u nodi yn y gweithgarwch a ddaw cyn camddefnyddio'r label 'wyau maes' (*free range eggs*).
- 5.3.22 Mae adroddiadau mewn perthynas â phrosesu anghyfreithlon yn y sector bwyd anifeiliaid wedi canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd mewn sefydliadau heb eu cofrestru neu eu cymeradwyo. Mae'n debygol nad yw bwyd anifeiliaid anwes a gynhyrchir mewn sefydliadau anghymeradwy yn destun rheolaethau tymheredd a hylendid priodol, gan beri risg iechyd i anifeiliaid anwes a'u perchnogion.

## 5.4 Dargyfeirio Gwastraff



**Dargyfeirio Gwastraff:** dargyfeirio bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sydd i fod yn wastraff yn ôl i'r cadwyni cyflenwi perthnasol yn anawdurdodedig.

- 5.4.1 Dargyfeirio gwastraff yw ailgyfeirio cynnyrch gwastraff a ystyrir yn risg uchel i'w fwyta gan bobl neu anifeiliaid, fel sgil-gynhyrchion o gynhyrchu bwyd neu nwyddau gorffenedig sydd wedi methu profion neu safonau ansawdd perthnasol.
- 5.4.2 Mae lefel yr adroddiadau yn y maes hwn yn parhau i fod yn gyfyngedig, er ei bod yn debygol o fod yn llawer uwch nag y mae'r adroddiadau cyfredol yn ei awgrymu. Mae unrhyw weithgarwch sy'n digwydd yn debygol o beri risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid oherwydd natur y cynhyrchion sy'n cael eu haddasu at ddibenion gwahanol.
- 5.4.3 Mae'r sectorau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff sydd â dibenion a llwybrau cymeradwy er mwyn cael ei wared. Mae'n parhau i fod yn broffidiol, fodd bynnag, i gamgyfeirio gwastraff yn ôl i'r gadwyn fwyd neu fwyd anifeiliaid, yn enwedig gan y byddai'n rhaid i lawer o fusnesau dalu fel arall i gael gwared ar y deunydd hwn yn gywir.
- 5.4.4 Yn yr achosion mwyaf difrifol, gallai defnydd amhriodol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid arwain at ledaenu clefydau anifeiliaid trosglwyddadwy fel Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE). Gallai arlwygo gwastraff sy'n cynnwys cig, os caiff ei ddargyfeirio i fwyd anifeiliaid, ledaenu clefydau fel Clwy Affricanaidd y Moch a Chlwy'r Traed a'r Genau.

### Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys carcasau anifeiliaid, rhannau o anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid nad ydynt yn addas i'w bwyta gan bobl. Cânt eu rhannu yn dri chategori risg o 3 hyd at 1, sy'n pennu lefel y prosesu sydd ei angen ar y cynnyrch.

Gellir defnyddio'r mwyafrif o sgil-gynhyrchion anifeiliaid categori 3 ar gyfer naill ai bwyd anifeiliaid anwes amrwd neu wedi'i brosesu, tra bod categorïau 1 a 2 yn cael eu dosbarthu fel rhai risg uchel, i'w gwaredu trwy gyfleuster prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid cymeradwy.

- 5.4.5** Mae adroddiadau wedi nodi achosion o fusnesau bwyd yn cael gwared ar ddeunydd risg penodedig Categori 1 yn anghywir fel deunydd categori is. Byddai hyn yn ei gwneud yn rhatach cael gwared arno ond mae'n golygu bod posibilrwydd realistig y gallai cynnyrch y dylid ei losgi gael ei gamgyfeirio i fwyd anifeiliaid. Mae hwn yn risg bosibl i iechyd anifeiliaid gan fod deunydd sydd wedi'i ddsbarthu fel Categori 1 yn cynnwys deunydd risg penodedig, a all gynnwys elfennau o glefydau TSE.<sup>47</sup>
- 5.4.6** Mae lladd a phrosesu anghyfreithlon hefyd yn peri risgiau dargyfeirio gwastraff gan nad oes gwiriad annibynnol bod gwastraff yn cael ei waredu'n gywir. Mae adroddiadau cyfyngedig yn y maes hwn yn awgrymu bod hwn yn fater penodol gyda helgig wedi'i botsio.
- 5.4.7** Mae adroddiadau yn ystod y cyfnod hwn yn cadarnhau bod gweithredoedd o ddargyfeirio gwastraff yn parhau i ecsbloetio llwybrau gwerthu eilaidd, trwy werthu cynhyrchion a gaiff eu dychwelwyd neu rai anaddas ymlaen. Mae'n bosibilrwydd realistig nad yw defnyddwyr yn ymwybodol eu bod yn prynu cynnyrch o ansawdd is ac efallai eu bod yn talu pris sy'n gyson â'r cynnyrch dilys. Gall gweithgarwch o'r fath arwain at ddifrod sylweddol i enw da a brand y busnes y mae ei gynhyrchion wedi'u dargyfeirio, hyd yn oed os yw unrhyw risg diogelwch yn fach iawn neu ddim yn bodoli.

## 5.5 Difwyo ac Amnewid



**Difwyo:** lleihau ansawdd cynnyrch bwyd drwy ychwanegu sylwedd arall gyda'r bwriad o leihau costau cynhyrchu, neu wella'r ansawdd yn ymddangosiadol.



**Amnewid:** disodli cynnyrch bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sydd o fath tebyg ond o ansawdd gwaeth.

- 5.5.1** Gall difwyo ac amnewid fod yn debyg iawn. Waeth bynnag am yr amwysedd rhwng y ddau fath o drosedd, gallant ill dau gynrychioli gweithred glir, fwriadol o dwyll, a gweithredir arnynt felly o safbwynt troseddau bwyd.
- 5.5.2** Rydym ni'n parhau i arsylwi tri phrif weithgaredd yn y maes hwn. Mae achosion lle cânt eu defnyddio yn amrywio o ran maint, difrifoldeb a niwed.
- 5.5.3** Mae technegau o'r fath yn cynyddu risg trwy gyflwyno bwyd i'r gadwyn fwyd, a all, mewn rhai achosion, achosi niwed corfforol neu emosiynol, trwy gyflwyno alergenau heb eu datgan, neu rywogaethau cig a allai gyfaddawdu ar ddaliadau crefyddol neu foesegol. Mae'r cwsmer yn cael ei gamarwain i brynu bwyd nad yw'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

<sup>47</sup> Mae Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) yn grŵp o glefydau dirywiol sy'n effeithio ar ymennydd a system nerfol anifeiliaid, gan gynnwys pobl. Mae Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) yn y grŵp hwn.

Ffigur 5: Difwyno ac Amnewid Meintiol

### Difwyno meintiol



Ychwanegu rhywbeth o werth is yn fwriadol i gynyddu cyfaint neu bwysau cynnyrch. Mae'r dechneg hon yn golygu bod modd gwerthu mwy o gynnyrch o ansawdd israddol i gwsmeriaid.

### Difwyno ansoddol



Ychwanegu sylwedd yn fwriadol i wneud i gynnyrch ymddangos o ansawdd uwch. Mae'r dechneg hon yn caniatáu i gynnyrch gael ei werthu am bris uwch.

### Amnewid



Cyfnewid cynnyrch (neu gynhwysyn) yn fwriadol am gynnyrch rhatach, neu un sydd ar gael yn fwy rhwydd. Mae hyn yn golygu bod modd gwerthu'r cynnyrch am yr un pris, ond gyda chostau is.

## Difwyno Meintiol

- 5.5.4** Ymhlith y nwyddau y gwyddys bod difwyno meintiol wedi effeithio arnynt mae cig coch, olew olewydd, fodca a saffrwm. Mae'r rhan fwyaf o'r mathau hyn o gynhyrchion yn cael eu cynhyrchu, ac mewn rhai achosion eu pecynnu, dramor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw effaith ar ddefnyddwyr y DU ac ar fusnesau sy'n defnyddio'r cynhwysion hyn yn eu prosesau cynhyrchu eu hunain.
- 5.5.5** Mae amnewid a difwyno yn dechnegau troseddau a welir yn aml o ran cynhyrchion **cig coch**, yn arbennig cynhyrchion wedi'u prosesu a rhai cyfansawdd.
- 5.5.6** Er nad yw cynhyrchion cig sy'n agored i gael eu hamnewid neu eu difwyno yn tueddu i beri unrhyw risg uwch o ran diogelwch, gallant gyfaddawdu ar ddaliadau crefyddol rhai defnyddwyr, yn arbennig pan ddefnyddir porc neu gig eidion yn lle cig arall.
- 5.5.7** Mae data'r diwydiant sydd ar gael yn amlygu'n glir graddfa'r gwyliadwriaeth fasnachol yn y maes hwn, a chyn lleied o anghysondebau sy'n codi. Roedd y data'n nodi mai dim ond 0.02% o nifer fawr o brofion dilysrwydd ar gynhyrchion cig coch a ddangosodd arwyddion posibl o ddifwyno â rhywogaethau eraill.<sup>48</sup>
- 5.5.8** Mae canlyniadau awdurdodau lleol a gwaith samplu a ariennir yn ganolog ar gig coch a chynhyrchion cig yn nodi mwy o ddiffyg cydymffurfio. Ond byddai'r gweithgarwch profi hwn wedi'i dargedu, gan ganolbwyntio ar brofi bwydydd nad oedd fel arfer yn cydymffurfio, neu fusnesau (neu categorïau busnes) gyda hanes o ddiffyg cydymffurfio.

<sup>48</sup> Profwyd 7 allan o 30,437 o samplau ar gyfer rhywogaethu yn y set ddata hon.

- 5.5.9** Cig oen yw'r rhywogaeth a gaiff ei amnewid yn fwyaf aml, ond mae hefyd yn cael ei samplu'n rheolaidd – a hynny mae'n debyg yn y ddau achos oherwydd pris manwerthu cymharol uchel y cig. Caiff cig eidion ei nodi'n aml fel rhywogaeth a ddefnyddir yn lle cig arall. Nid oes un o'r samplau a gymerwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi nodi presenoldeb cig ceffyl heb ei ddatgan.
- 5.5.10** Y categorïau cynnyrch yr effeithir arnynt amlaf yw cig wedi'i brosesu, fel briwrig (*mince*), cig cebab a selsig. Mae ymddangosiad a chyfansoddiad cynhyrchion o'r fath yn ei gwneud hi'n heriol i ddefnyddwyr nodi twyll. Mae bron yn sicr y bydd y man gwan hwn yn parhau i gael ei ecsbloetio yn y DU, er bod hwn yn faes risg hysbys iawn i bartneriaid rheoleiddiol.
- 5.5.11** Mae sylweddau difwyno nad ydynt yn gig wedi'u nodi mewn cynhyrchion fel briwrig, gyda braster a meinweoedd cysylltiol (*connective tissues*) yn ymddangos amlaf fel sylweddau difwyno yn y cynhyrchion hyn.



#### Astudiaeth achos: Cig Ceffyl

Ym mis Ebrill 2019, cafwyd pedwar dyn yn euog o labelu cig ceffyl fel cig eidion yn fwriadol. Mae'r euogfarnau hyn yn deillio o'r achos enwocaf erioed o ddifwyno cig coch, sef y 'sgandal cig ceffyl' a effeithiodd ar Ewrop gyfan yn 2013.

Arweiniodd gweithredoedd y grŵp troseddol hwn, ac eraill, at dynnu miliynau o brydau cig eidion oddi ar silffoedd archfarchnadoedd ledled y DU, ar ôl darganfod eu bod yn cynnwys cig ceffyl er iddynt gael eu labelu fel cig eidion. Roedd y cig ceffyl yn deillio'n bennaf o Rwmania a chafodd ei fasnachu ledled yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Dedfrydwyd cyn gyfarwyddwr y cwmni prosesu cig i ddwy flynedd yn y carchar, cafodd ddirwy o €100,000, a'i wahardd rhag gweithio yn y diwydiant cig am ddwy flynedd.

Ers 2013, mae pedwar unigolyn arall wedi eu cael yn euog o weithgarwch troseddol yn ymwneud â'r sgandal, gan lysoedd yn y DU ac yn Sbaen.

- 5.5.12** Ymhlith y dulliau difwyno a nodwyd mewn **olew olewydd** mae ychwanegu olewau llysiâu, cnau neu hadau eraill, ynghyd ag ychwanegu sylweddau fel cloroffyl, neu beta-caroten at olew o ansawdd isel, i greu lliw a dwyster tebyg i olew olewydd 'extra-virgin'. Mae materion dilysrwydd sy'n ymwneud ag olew olewydd yn thema gyson o fewn cwmipas troseddau bwyd yn fyd-eang, a bydd hwn yn fater y mae prif bartneriaid y diwydiant yn ymwybodol ac yn wylidwrus ohono.
- 5.5.13** Mae lefelau blynyddol cytunedig o ran samplu er mwyn monitro a gorfodi cydymffurfiaeth olew olewydd. Nododd gwaith samplu a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig rhwng mis Ionawr 2018 a Gorffennaf 2019 lefel ddiffyg cydymffurfio o 39% mewn samplau a brofwyd am gydymffurfiaeth yn erbyn rheoliadau cyfansoddiad a labelu'r UE ar gyfer olew olewydd.<sup>49</sup> Nid yw'r methiannau hyn yn ddangosydd pendant o weithgarwch twyllodrus ond mae'n un o achosion posibl y methiannau

<sup>49</sup> Rheoliad (EEC) 2568/91; Rheoliad (UE) 29/2012; Rheoliad (UE) 1308/2013.

cydymffurfio, ochr yn ochr â diffyg cydymffurfiaeth anfwriadol a storio neu gludo gwael.

- 5.5.14** Ychydig iawn o wybodaeth a nodwyd sy'n awgrymu bod olew olewydd nad yw'n cydymffurfio ar farchnad y DU wedi'i gynhyrchu'n dwyllodrus. Fodd bynnag, ym mis Medi 2018, nododd ymchwiliad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Diogelu Natur Sbaen (SEPRONA) unigolyn yn allforio olew olewydd i'r DU wedi'i labelu fel olew 'extra-virgin', ond a oedd yn cynnwys hyd at 30% o olewau wedi'u puro.<sup>50</sup> Er nad oes unrhyw arwydd bod y mewnoforiwr yn y DU yn rhan o'r gweithgarwch hwn, mae'r achos yn dangos nad yw busnesau'r DU, ac felly defnyddwyr y DU, yn imiwn i droseddau bwyd a gyflawnir mewn man arall yn y farchnad fyd-eang.
- 5.5.15** Mae'n debygol iawn y bydd unrhyw ddifwyno mewn perthynas ag olew olewydd yn digwydd yn ystod y cam cynhyrchu, ac mae'n bosibilrwydd realistig nad yw'r rhai sy'n dosbarthu'r cynnyrch yn ddiweddarach yn y gadwyn, yn enwedig o fewn llwybrau cyflenwi cyfreithlon, yn ymwybodol o wir natur y cynnyrch y maent yn ei drin.
- 5.5.16** Mae hefyd yn bosibilrwydd realistig y bydd pwysau parhaus ar gynhyrchiant olewydd Ewropeaidd, gan gynnwys lledaeniad y clefyd planhigion *Xylella fastidiosa*, yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchu olew olewydd wedi'i ddifwyno gan y rheiny sy'n dymuno manteisio ar gynnydd mewn prisiau a phrinder cyflenwad. Gan fod y DU yn gwbl ddibynnol ar olew wedi'i fewnforio i ateb y galw, mae cynnydd yn lefel gyffredinol y cynnyrch twyllodrus ar y farchnad yn cynyddu cysylltiad posibl defnyddwyr y DU â'r twyll hwn.



#### Astudiaeth Achos – Gweithrediad ORO GIALLO

Ym mis Mai 2019, arweiniodd gweithrediad ar y cyd gan Europol, NAS Carabinieri yr Eidal, a Thribiwnlys Darmstadt yn yr Almaen, at arestio 20 o bobl. Cafodd 150,000 litr o olew olewydd twyllodrus ei atafael.<sup>51</sup>

Roedd y grŵp troseddu wedi bod yn cymysgu olew blodyn yr haul o ansawdd isel ag olew cloroffyl, beta-caroten a soia i wneud iddo ymddangos fel olew olewydd 'extra-virgin'. Yna roeddent yn cymysgu hwn gydag olew olewydd dilys ac yn ei farchnata fel olew olewydd 'extra-virgin'. Mewn rhai achosion, nid oedd y poteli yn cynnwys unrhyw olew olewydd, dim ond yr olew blodyn yr haul wedi'i liwio. Digwyddodd y gweithgarwch difwyno yn yr Eidal, a chafodd y cynnyrch ei werthu ym marchnad yr Almaen, i berchnogion bwytai yn bennaf. Amcangyfrifir bod y grŵp wedi gwneud dros €8 miliwn mewn elw y flwyddyn.

- 5.5.17** Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym ni wedi gweld cynnydd mewn adroddiadau yn ymwneud â difwyno **fodca** â chemegion diwydiannol, gan gynnwys methanol ac alcohol isopropyl. Mae adroddiadau hefyd wedi tynnu sylw at achosion lle mae fodca rhad wedi'i ddefnyddio a'i farchnata fel fodca brand cyfreithlon.

<sup>50</sup> [Ymchwiliad a ddaeth yn sgil allforio 24,000 litr o olew olewydd wedi'i buro fel olew olewydd 'extra virgin'](#), ABC News, Hydref 2018.

<sup>51</sup> [150,000 litres of fake extra virgin olive oil seized from 'well-oiled' gang](#), Europol, Mai 2019.

- 5.5.18** Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys a yw'r cynnydd hwn mewn adroddiadau yn cael ei briodoli i fwy o gynnyrch wedi'i ddifwyo ar y farchnad, neu well ymwybyddiaeth a dulliau canfod.
- 5.5.19** Gall methanol fod yn wenwynig i bobl os caiff ei yfed mewn cyfeintiau digonol. Mae'n bresennol yn naturiol, ar lefel isel, yn y mwyafrif o ddiodydd alcoholig, fodd bynnag bydd diodydd anghyfreithlon a weithgynhyrchir o gemegion diwydiannol yn cynnwys lefelau llawer uwch o fethanol. Gall y diodydd hyn achosi dallineb, a hyd yn oed marwolaeth, gan ddbynnu ar eu hunion gynnwys methanol.<sup>52</sup>
- 5.5.20** Er bod yr achosion cyfyngedig hyn wedi'u canfod mewn sawl rhan o'r DU, mae'r niwed o'r mater hwn yn llawer mwy amlwg dramor. Adroddwyd am nifer o farwolaethau o yfed alcohol wedi'i ddifwyo yn Indonesia, y Weriniaeth Ddominicaidd a Malaysia.
- 5.5.21** O fewn set ddata gymedrol yn cyfeirio at gynhyrchion fodca a samplwyd, datgelodd nifer fach iawn bresenoldeb alcohol diwydiannol. Mae hyn yn dangos gofyniad parhaus am wylidwriaeth, ond ni ddylid cymryd bod y canlyniadau hyn o weithgarwch sydd wedi'i dargedu yn cynrychioli lefelau ehangach o ddiffyg cydymffurfio. Nododd samplau eraill o'r cyfnod adrodd gynhyrchion a oedd yn ddiffygiol o ran cynnwys alcohol.<sup>53</sup>
- 5.5.22** Asesir ei bod yn debygol iawn bod fodca yn fwy agored i gael ei ddifwyo na gwirodydd eraill, a hynny oherwydd pa mor hawdd yw gwneud gwirod clir anghyfreithlon gan ddefnyddio cemegion diwydiannol, o'i gymharu â diodydd gwirod eraill.
- 5.5.23** Yn yr Alban, daeth isafbris alcohol i rym ym mis Mai 2018. Mae hyn wedi arwain at newid yn y dynameg cyflenwi a galw o fewn y farchnad alcohol. Nid yw'n bosibl eto rhoi sylwadau ar b'un a yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar gyflenwi alcohol ffug.
- 5.5.24** Mae mêl yn gynnyrch y cydnabyddir yn aml wrth drafod troseddau bwyd fel un sy'n agored i dwyll. Mae amrywiaeth helaeth o gynhyrchion mêl ar gael i'r defnyddiwr, o fêl cyfun am bris cystadleuol i'r rhai sy'n denu pris premiwm (er enghraifft mêl tarddiad monofloral neu darddiad sengl, a mêl Mānuka o Seland Newydd).
- 5.5.25** Mae mêl yn gymysgedd cymhleth ac oherwydd yr amrywiadau sylweddol sy'n bresennol mewn mêl a gynhyrchir ac a werthir ar draws y byd, gall dadansoddi fod yn heriol. Yn aml mae angen defnyddio nifer o wahanol fethodolegau. Mae awdurdodau'r DU yn defnyddio dull pwys tystiolaeth ar gyfer pennu siwgr sydd wedi'i ychwanegu at fêl, gan gynnwys gwiriadau olrhain, wrth asesu dilysrwydd mêl.
- 5.5.26** Mae cyfaint y cynnyrch cyfunol sy'n ofynnol ar gyfer y farchnad fêl ac argaeledd cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n hawdd i ddifwyo fel surop siwgr, yn ychwanegol at y pris premiwm sy'n gysylltiedig â rhagor o gynhyrchion mêl gwerth uwch yn golygu ei bod yn bosibilrwydd realistig bod mêl wedi'i ddifwyo neu wedi'i gamgynrychioli yn bresennol o fewn cyflenwadau mêl y byd. Ni ellir diystyru ei bresenoldeb o fewn cynhyrchion sydd ar gael i ddefnyddwyr y DU yn llwyr.

<sup>52</sup> [Diffinio crynodiad goddefol o fethanol mewn diodydd alcoholig](#), Paine a Davan, 2001.

<sup>53</sup> O dan Reoliadau Diodydd Gwirodol 2008, rhaid i fodca fod ag isafswm cynnwys alcohol o 37.5%.

- 5.5.27** Mae gwaith samplu a gynhaliwyd yn 2018 a 2019 mewn gwledydd gan gynnwys Canada<sup>54</sup>, Awstralia<sup>55</sup> a'r DU, gan awdurdodau cymwys ac endidau preifat, wedi archwilio dilysrwydd rhai cynhyrchion mêl, gyda phryderon posibl yn ymwneud â difwyno mêl gyda surop siwgr, yr ansawdd a gaiff ei ddatgan, a'r tarddiad a gaiff ei ddatgan. Mae'r themâu hyn hefyd yn amlwg yn nata samplu diwydiant y DU ar gyfer y cyfnod, er bod nifer yr anghysondebau a nodwyd yn fach ac yn dilyn ymchwiliad, ni aseswyd y mwyafrif ohonynt i nodi mater dilysrwydd. Yn dilyn adolygiad o ddata yn ymwneud â'r DU gan awdurdodau cymwys, a nodi'r dull 'pwysau'r dystiolaeth', nid oedd angen cymryd unrhyw gamau dilynol.
- 5.5.28** Mae dulliau profi ar gyfer dilysrwydd mêl wedi denu amrywiaeth o safbwyntiau a thrafodaeth o bob rhan o'r cylchoedd masnachol, dadansoddol a rheoliadol. Mae amheuan yn cynnwys y diffyg llyfrgelloedd cyfeirio agored, cynhwysfawr a dibynadwy i'w defnyddio ochr yn ochr â rhai dulliau dadansoddol. Roedd hwn a materion eraill yn destun gweithdy yn y DU rhwng gwyddonwyr, y diwydiant a rheoleiddwyr yn hydref 2019<sup>56</sup> ac mae sawl ffrwd o weithgarwch pellach yn yr arfaeth o ganlyniad i'r gweithdy. Mae awdurdodau Canada ac Awstralia hefyd yn nodi ystyried dulliau yn eu hymatebion i'w data samplu.
- 5.5.29** Mae enghreifftiau eraill o ddifwyno meintiol a welwyd yn y cyfnod adrodd yn y sector **perlysiâu a sbeisys**, ac maent yn cynnwys difwyno saffrwm a pherlysiâu deiliog gwyrdd. Mae mwyafrif yr adroddiadau sy'n ymwneud â'r sector hwn yn ymwneud â gweithgareddau sy'n digwydd dramor heb fawr o gysylltiad wedi'i gadarnhau â defnyddwyr y DU, os o gwbl.



#### Astudiaeth achos: Difwyno saffrwm

Nododd data samplu, a ddaeth i law'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn 2018, broblemau gyda saffrwm yn cael ei farchnata yn y DU fel saffrwm Sbaenaidd o ansawdd uchel, a oedd yn cynnwys ffeibrau planhigion eraill. Roedd y saffrwm hwn wedi'i werthu gan fanwerthwyr yn Ne Lloegr.

Cyfeiriwyd yr wybodaeth hon at awdurdodau Sbaen, a ddatgelodd wedi hynny ffatri gudd a oedd yn cymysgu deunyddiau planhigion eraill â saffrwm. Arweiniodd hyn at atafael 90kg o saffrwm wedi'i ddifwyno gwerth oddeutu £750,000.<sup>57</sup>

- 5.5.30** Mewn set ddata samplu'r diwydiant a oedd yn ymdrin â dadansoddiadau a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019, dim ond pum sampl o berlysiâu a sbeisys oedd yn dangos lefelau difwyno posibl â deunydd planhigion allanol. Profodd chwe

<sup>54</sup> [Mesurau cryfach wrth gadw gwylidwriaeth o ddilysrwydd mêl \(2018 i 2019\)](#), Asiantaeth Arolygu Bwyd Canada (CFIA), 2019.

<sup>55</sup> [Ymchwiliad i fêl yn dod i ben oherwydd ansicrwydd ynghylch profi](#), Comisiwn Cystadleuaeth a Defnyddwyr Awstralia (ACCC), Tachwedd 2018.

<sup>56</sup> [Adroddiad Seminar Dilysrwydd Mêl \(2019\)](#), Gov.UK, Ebrill 2020.

<sup>57</sup> [Twyll Bwyd: difwyno saffrwm yn arwain at ymchwiliad rhyngwladol](#), Food Manufacture, Awst 2019.

sampl arall yn bositif am ddifwyno piwrî garlleg wedi'i rewi â dŵr, yn fwyaf tebyg er mwyn gwneud y cynnyrch wedi'i rewi yn fwy swmpus.

- 5.5.31** Roedd yr achosion posibl hyn o ddiffyg cydymffurfio yn cynrychioli dim ond 0.75% o'r holl samplau perlysiâu a sbeisys a brofwyd am faterion dilysrwydd o fewn y set ddata hon o'r diwydiant.<sup>58</sup>
- 5.5.32** Mae'n debygol iawn bod mesurau atal a weithredwyd gan y mwyafrif o fewnforwyr perlysiâu a sbeisys y DU wedi llwyddo i leihau'r risg i farchnad y DU. Os yw'r cynhyrchion hyn yn bresennol yn y DU, mae'n debygol iddynt ddod i mewn i'r DU fel mewnforion personol neu eu bod wedi'u gwerthu trwy fanwerthwyr cyfleustra llai â chadwyni cyflenwi llai.
- 5.5.33** Archwiliodd cynllun rheoli 2019, dan arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd, ddilysrwydd perlysiâu a sbeisys. Bydd canlyniadau'r cynllun hwn yn gymhariaeth ddefnyddiol â data domestig unwaith y cânt eu cyhoeddi ddiwedd 2020.
- 5.5.34** Mae profion gan awdurdodau lleol a'r diwydiant wedi nodi achosion ynysig o ddifwyno **reis basmati** gydag amrywiaethau eraill. Mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn broblem oherwydd newidiadau diweddar i reoliadau sy'n ymwneud â lefelau gweddillion plaladdwyr a ganiateir, a allai effeithio ar y cyflenwad o rywogaethau basmati cywir, a bydd gwyliadwriaeth yn cael ei gynnal.
- 5.5.35** Yn 2019, canfu gwaith samplu a gynhaliwyd ar gynhyrchion ar werth yn y DU wedi'u labelu fel rhai sy'n cynnwys **mozzarella byfflo** fod rhai yn cynnwys hyd at 30% o laeth gwartheg, cynhwysyn sydd ar gael yn ehangach. Mae mozzarella byfflo go iawn dim ond yn cynnwys llaeth byfflo, ac o'r herwydd mae'n cael ei ystyried yn gynnyrch arbenigol, sy'n golygu pris uwch.
- 5.5.36** Mae'n debygol bod difwyno o'r natur hon yn digwydd mewn caws a chynhyrchion llaeth eraill a wneir o laeth ar wahân i laeth buwch. Fodd bynnag, ni chedwir tystiolaeth ehangach o hyn. Mae'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng y gwahanol fathau hyn o laeth, ynghyd â'u poblogrwydd cynyddol, yn golygu bod hyd yn oed difwyno ar lefel isel yn arwain at fuddion ariannol, ond nododd gwaith samplu gan awdurdodau Bwlgaria o dan Ymgyrch OPSON IX gynhyrchion llaeth wedi'u difwyno â startsh.
- 5.5.37** Problem a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol oedd difwyno **powdrau cnau**, yn arbennig ychwanegu powdr pysgnau at bowdr almon. Mae nifer o farwolaethau wedi digwydd yn y DU o ganlyniad i'r defnydd heb ei ddatgan o bowdr pysgnau mewn prydau tecawê, ac er nad oedd pob un ohonynt o ganlyniad i ddifwyno twyllodrus, mae'r marwolaethau hyn yn tynnu sylw at y lefel uchel o risg a all fod yn gysylltiedig â throsteddau bwyd, yn arbennig lle mae alergenau bwyd dan sylw.
- 5.5.38** Nid yw'r data samplu sydd ar gael ar gyfer y cyfnod adrodd yn adrodd amllder uchel o ddifwyno powdr cnau a daeth lefel isel iawn o wybodaeth i law mewn perthynas â hyn. Mae'n bosibilrwydd realistig bod hyn yn rhannol oherwydd yr ymwybyddiaeth gynyddol o ganlyniadau sylweddol gweithgarwch o'r fath.
- 5.5.39** Mae hysbysiadau galw bwyd yn ôl diweddar o sawsiau pesto sy'n gysylltiedig â halogiad pysgnau yng nghynnwys cnau cashiwr'r cynnyrch yn dangos pa mor

<sup>58</sup> 11 o 1476 o brofion o berlysiâu a sbeisys a nodwyd yn y set ddata hon.



berthnasol yw'r thema barhaus hon o fewn cadwyni cyflenwi rhyngwladol, yn ogystal â gwasanaethau bwyd mwy lleol.

- 5.5.40** Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflawnwyd camau wedi'u targedu i ddatgelu arferion twyllodrus posibl mewn **coffi** mâl wedi'i labelu fel 100% Arabica gan 14 gwlad Ewropeaidd, fel rhan o Ymgyrch OPSON VIII. Mae'r rhan fwyaf o goffi mâl o'r amrywiaeth Arabica, fodd bynnag, mae coffi Robusta 30-50% yn rhatach, sy'n golygu bod difwyno coffi yn apelio yn ariannol.
- 5.5.41** Dangosodd llai na 3% o'r 400+ sampl arwyddion o ddifwyno, ond rydym ni'n asesu bod angen gwyliadwriaeth barhaus yn y maes hwn. Mae bron yn sicr y bydd graddfa'r arfer hwn yn amrywio mewn cydberthynas uniongyrchol â phris ffa Arabica. Ni nododd samplu yn yr Alban fel rhan o'r gweithrediad unrhyw arwydd o gamgynrychioli coffi.

### Difwyno Ansoddol

- 5.5.42** Nod difwyno ansoddol yw gwella ymddangosiad cynnyrch, er mwyn awgrymu ansawdd uwch a sicrhau pris mwy ffafriol. Gwelwyd hyn mewn ystod o gynhyrchion, gan gynnwys tiwna ac olew palmwydd.
- 5.5.43** Mae gweithgarwch twyllodrus ar draws y gadwyn gyflenwi **tiwna** fyd-eang yn parhau i fod yn bryder parhaus, er na nodwyd gweithrediad yr arfer hwn yn y DU.
- 5.5.44** Mae'r arfer yn cynnwys trin tiwna o safon tun yn anghyfreithlon i ymddangos fel cynnyrch ffres. Mae methodolegau cyffredin wedi cynnwys chwistrellu sudd betys neu nitradau/nitreidiau, a thriniaeth â charbon monocsid. Mae'r rhain yn rhoi'r lliw coch i'r pysgod sy'n gysylltiedig â thiwna ffres, gan guddio'r lliw brown sy'n digwydd dros amser.
- 5.5.45** Mae cymhelliant ariannol sylweddol i'r arferion hyn yn deillio o wahaniaethau sylweddol mewn prisiau, gyda thiwna ffres yn gwerthu am ddwbl pris tiwna o safon tun.
- 5.5.46** Mae'r arferion hyn yn cyflwyno risgiau iechyd, gan guddio histaminau sy'n casglu yn y cynnyrch a all arwain at scombroidosis, gyda symptomau tebyg i adwaith alergaidd.
- 5.5.47** O dan Ymgyrch OPSON VII ddechrau 2018, cymerodd nifer o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys y DU, ran mewn gweithgarwch cydgysylltiedig yn edrych ar gynhyrchu a dosbarthu tiwna a oedd wedi'i drin yn anghyfreithlon. Nododd gwaith samplu a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol bresenoldeb cynnyrch wedi'i ddifwyno mewn rhai rhannau o farchnad y DU, ond nid oedd unrhyw weithgarwch difwyno yn digwydd.
- 5.5.48** Casglwyd ac aseswyd canfyddiadau'r holl weithgarwch a gynhaliwyd gan Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU), ac ers hynny fe'u defnyddiwyd i gryfhau cadwyni cyflenwi, a thargedu gweithgarwch gorfodi ledled yr UE. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymryd camau i dynhau rheoliadau ar lefelau ychwanegion, fel gwrthocsidyddion, y caniateir eu defnyddio mewn bwyd.



### Astudiaeth achos: Gweithrediad ATUNALI

Ym mis Awst 2018, arweiniodd gweithrediad dan arweiniad Sbaen mewn cydweithrediad ag Europol, y Comisiwn Ewropeaidd, ac Aelod-wladwriaethau'r UE, at atafael 45 tonnelli o diwna a oedd wedi'i drin yn anghyfreithlon.

Roedd y pysgod hyn yn diwna safon tun a oedd wedi'u trin ag echdyniadau (*extracts*) llysiâu yn cynnwys lefelau uchel o nitreidiau. Roedd hyn wedi cuddio'r brownio a achoswyd gan rewi ymlaen llaw, ac yn rhoi lliw coch ar y pysgod, sy'n aml yn gysylltiedig â ffresni.

Ychydig iawn o gofnodion olrhain, os o gwbl, oedd ar gael ar gyfer rhai o'r pysgod a gafodd eu hatafael, a chanfuwyd yn ddiweddarach bod rhai wedi'u dal gan gychod pysgota didrwydded, heb allu rhewi digonol i ddal tiwna ffres.

- 5.5.49** Mae gweithgarwch gan gyrff gorfodi cyfraith wedi tarfu ar droseddu yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau troseddol sy'n ymwneud â'r gweithgarwch hwn wedi newid eu dulliau difwyno o ganlyniad. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y driniaeth o bysgod â charbon monocsid.
- 5.5.50** Mae'n debygol bod tiwna wedi'i ddifwyno yn dal i fod ar farchnad yr UE, naill ai trwy brosesu twyllodrus parhaus yn yr UE, neu trwy fewnforio cynnyrch wedi'i ddifwyno o drydydd gwledydd. Ac mae posibilrwydd realistig bod tiwna wedi'i drin yn anghyfreithlon yn bresennol ym marchnad y DU. Fodd bynnag, nid yw graddfa'r broblem hon yn hysbys ar hyn o bryd.
- 5.5.51** Hyd yn oed pan gydnabyddir rhyw fath o driniaeth ar label cynnyrch, er enghraifft mewn marchnad bysgod gyfanwerthol, mae dal risg na chyfathrebir statws y cynnyrch i ddefnyddwyr diweddarach, er enghraifft pan gaiff ei baratoi mewn amgylchedd gwasanaeth bwyd.
- 5.5.52** Ni nodwyd arferion tebyg o ran pysgod gwyn yn y DU, ond maent yn bosibl. Ym mis Tachwedd 2018 bu i awdurdodau'r Eidal atafael chwe thunnell o benfras ynghyd â llawer iawn o galch, a ddefnyddiwyd i gannu (*bleach*) y ffiledi er mwyn gwneud iddynt edrych yn ffres.
- 5.5.53** Mae cynhyrchion **olew palmwydd** coch wedi'u difwyno â lliwiau (*dyes*) Sudan gwaharddedig yn cael eu nodi fel problem barhaus o fewn y cyfnod adrodd, gyda chynhyrchion wedi'u difwyno yn cael eu mewnforio o Ghana i'r DU, ond nid ar raddfa sylweddol.
- 5.5.54** Mae olew palmwydd coch yn naturiol goch, gan ei fod yn uchel mewn beta caroten. Mae gan olew palmwydd safon isel sydd wedi'i ddifwyno â lliwiau Sudan yr un lliw coch dymunol, hyd yn oed ar ôl ei goginio.
- 5.5.55** Mae symiau bach o gynnyrch o'r fath wedi'u mewnforio gan unigolion preifat yn y DU, ond nid yw'n hysbys a oedd y rhain wedi'u bwriadu at ddefnydd personol neu er mwyn eu gwerthu ymlaen. Mae mewnforion o'r fath fel arfer yn cael eu camddatgan i osgoi gwiriadau sydd ar waith i nodi cynhyrchion wedi'u difwyno.

## Amnewid

- 5.5.56** Amnewid yw defnyddio un cynnyrch neu gynhwysyn yn lle un arall ar lefel cyfanwerthu. Gall penderfynu a yw newid cynnyrch yn rhannol (difwyno) neu'n gyfan (amnewid) fod yn heriol, yn arbennig mewn cynhyrchion cyfansawdd neu rai wedi'u prosesu.
- 5.5.57** Yn aml mae'n ymddangos fod y ddwy dechneg droseddu hyn yn digwydd ar raddfa lithro, ac mewn rhai achosion gallant amrywio rhwng difwyno ac amnewid yn dibynnu ar bwysau'r farchnad, ac felly maent yn wahanol yn dibynnu ar y rhan o'r farchnad fwyd dan sylw.
- 5.5.58** Roedd y data a adolygwyd yn cynnwys arolwg wedi'i dargedu o dan Ymgyrch OPSON VIII, a gynhaliwyd yng Ngogledd Iwerddon, a ddangosodd mai dau o'r 27 o samplau penfras o siopau tecawê oedd o'r rhywogaethau anghywir. Yn fwy eang, nodwyd bod hadog yn rhywogaeth a gaiff ei amnewid yn gyffredin ond nodwyd amrywiaeth o amnewidiadau, gan gynnwys crydd yr afon ( *pangasius*), celog (*coley*) a gwyniad môr (*whiting*).
- 5.5.59** Mae data samplu'r diwydiant yn dangos lefelau amnewid is na data samplu awdurdodau lleol, sy'n debygol o ddangos y mathau o gynhyrchion a sefydliadau a dargedir i'w samplu ym mhob set data.
- 5.5.60** Mae materion cyflenwi yn y sector **fanila** wedi'u nodi fel rhai o bryder, ond nid ydynt wedi arwain at nodi materion dilysrwydd eang ym marchnad y DU.
- 5.5.61** Mae prinder byd-eang wedi achosi i bris fanila godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ddechrau 2018, roedd prisiau fanila wedi cyrraedd £463 y cilo, gan ostwng i £397 ym mis Mehefin 2018.<sup>59</sup> Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â phum mlynedd yn ôl, pan oedd pris 1kg o fanila yn £15. Yn 2018, cyhoeddodd rhai cynhyrchwyr hufen iâ artisan eu bod yn rhoi'r gorau i gynhyrchu hufen iâ fanila nes i'r pris ostwng.
- 5.5.62** Er gwaethaf hyn, nid yw amnewid fanila naturiol â vanillin synthetig ym marchnad y DU wedi ymddangos o fewn gwybodaeth yr Unedau yn ystod y cyfnod adrodd.
- 5.5.63** Yn yr un modd, nodwyd gwendidau yn y sectorau **menyn** a hufen, oherwydd materion cyflenwi, mewn sylwebaeth ar y farchnad ond nid ydynt wedi amlygu mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- 5.5.64** Fe wnaeth un gŵdwyn o siopau cacennau stryd fawr ddatgan yn gyhoeddus eu bod wedi defnyddio brasterau eraill yn eu cynhyrchion crwst pwff yn lle menyn er mwyn ymdopi â phrisiau cynyddol<sup>60</sup>, a nododd ymchwiliad yn Albania ym mis Mai 2019 werthiant twyllodrus o 47 tunnell o farjârîn o Wcrain fel menyn Almaenig. O ganlyniad, mae'n gwneud synnwyr fod hwn yn parhau i fod yn faes gwylidwriaeth mewn perthynas â ffactorau cyflenwi a galw yn y dyfodol.

<sup>59</sup> [Vanilla price rise proves chilling for ice-cream makers](#), Newyddion y BBC, Mai 2018.

<sup>60</sup> [Cash-starved Patisserie Valerie 'stopped using butter in puff pastry](#), The Guardian, Mehefin 2019.


## 5.6 Camgynrychioli



**Camgynrychioli:** marchnata neu labelu cynnyrch i bortreadu ansawdd, diogelwch, budd, tarddiad neu oed y cynnyrch yn anghywir.

**5.6.1** Gellir categorio camgynrychioli o fewn y gadwyn fwyd i raddau helaeth yn bedwar prif faes, sef camddehongli naill ai ansawdd, manteision, tarddiad neu ffresni.

**Ffigur 5:** Enghreifftiau o'r prif fathau o gamddehongli



**Cynnyrch gwreiddiol → Camgynrychioli → Cynnyrch a gaiff ei farchnata**

**5.6.2** Mae'r Unedau wedi nodi cynnydd mewn adroddiadau yn ymwneud â chamgynrychioli, a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n dod i'r amlwg yw camgynrychioli cynhyrchion fel rhai sydd â rhinweddau anodd eu profi, ond dymunol, fel statws moesegol, neu les anifeiliaid uchel.

**5.6.3** Mae camgynrychioli fel arfer yn digwydd lle nad yw'n hawdd i'r cwsmer nodi a yw datganiad neu honiad a wneir ar ddeunydd pecynnu cynnyrch, neu fel honiad marchnata sy'n ymwneud â'r cynnyrch hwnnw, yn ddilys ac yn gywir.

**5.6.4** Pan gaiff bwyd ei gamgynrychioli, mae bron yn sicr y bydd gweithred o dwyll dogfennau ynghlwm wrtho, p'un a yw'n gysylltiedig â labelu cynnyrch neu â dogfennau a ddefnyddir i gefnogi honiadau dilysrwydd. Defnyddir twyll dogfennau i gyfreithloni'r cynnyrch sydd wedi'i gamgynrychioli ac i guddio'r gweithgarwch twyllodrus.

## Camgynrychioli Ansawdd

- 5.6.5** Mae camgynrychioli ansawdd yn digwydd ar draws sawl sector o'r diwydiant bwyd. Mae cynhyrchion yn arbennig o agored i niwed lle mae'n anodd canfod y camgynrychioli. Gallai hyn fod am nifer o resymau gan gynnwys anhawster wrth wirio'r rhinweddau a ddatgenir am gynnyrch, diffyg dulliau profi dibynadwy i'w gwirio, neu nodweddion tebyg iawn i gynnyrch dilys.
- 5.6.6** Mae cyfran sylweddol o adroddiadau yn y maes hwn yn gysylltiedig â gweithgarwch sy'n digwydd dramor. Mae cadwyni cyflenwi byd-eang, fodd bynnag, yn golygu y gall y materion hyn dal fod yn berthnasol i gynhyrchion sydd ar werth i ddefnyddwyr y DU.
- 5.6.7** Ymhlith y cynhyrchion yr adroddir amdanynt yn aml o ran camgynrychioli ansawdd y mae cynnyrch organig, prosecco, fodca a physgod cregyn. Mae'r rhain yn faterion y nodwyd eu bod yn effeithio ar farchnad y DU, ond mae'n bosibl bod y twyll wedi digwydd rywle arall.
- 5.6.8** Mae cynhyrchion sydd â statws premiwm – a ddiffinnir yn yr asesiad hwn fel rhai sy'n rhan o gynllun achrededig, neu ddull neu leoliad cynhyrchu a ddiffinnir yn gyfreithiol – yn arbennig o agored i gamgynrychioli ansawdd.
- 5.6.9** Fel arfer, nodir statws premiwm y cynhyrchion hyn gan ddefnyddio disgrifydd neu logo ychwanegol ar y deunydd pecynnu. Mae enghreifftiau o statws premiwm yn cynnwys ardystio organig, cynlluniau sicrwydd diwydiant, a chynlluniau ansawdd yr Undeb Ewropeaidd.
- 5.6.10** Mae'r prisiau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion cynnyrch hyn, neu fel arall y mynediad i'r farchnad y maent yn ei alluogi, yn gwneud nodweddion o'r fath yn arbennig o agored i gael eu priodoli i gynhyrchion o ansawdd is a gamgynrychiolir ac sy'n honni eu bod yn dwyn y statws hwn.
- 5.6.11** Nod amaethyddiaeth **organig** yw cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid gan ddefnyddio sylweddau a phrosesau naturiol yn unig. Mae camgynrychioli cynnyrch organig wedi'i nodi o fewn y cyfnod adrodd, er ei fod yn werth nodi bod yr achosion mwyaf o dwyll a nodwyd i gyd wedi digwydd dramor.
- 5.6.12** Nid ydym ni'n gwybod i ba raddau y mae cynhyrchion organig twyllodrus yn dod i mewn i farchnad y DU, ond asesir ei bod yn debygol bod effaith o ryw fath. Ychydig o wybodaeth a gedwir yn ymwneud â chynhyrchu organig yn y DU, neu werthu cynnyrch organig yn dwyllodrus yn y DU.

### Ardystiad organig

Rhaid i ffermwyr, proseswyr, dosbarthwyr a mânwerthwyr organig gael eu cofrestru, eu harolygu a'u cymeradwyo gan gorff ardystio cydnabyddedig er mwyn sicrhau bod y safonau perthnasol yn cael eu cynnal trwy'r gadwyn gyflenwi. Mae wyth corff ardystio organig yn y DU, a mwy na 250 o gyrff wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd i ardystio cynhyrchion a gynhyrchir yn yr UE, neu a fewnforir i'r UE.<sup>61</sup>

Gall cynhyrchion sydd wedi'u hardystio i safon organig yr UE ddefnyddio, ar eu deunydd pecynnu, symbol organig Deilen Werdd yr UE neu symbol eu corff ardystio. Rhaid i ddeunydd pecynnu hefyd arddangos cod adnabod yr ardystiwr i ddangos ei fod wedi'i ardystio'n briodol fel cynnyrch organig.

**5.6.13** Fel rhan o Ymgyrch OPSON VIII, canolbwyntiodd aelod-wladwriaethau'r UE ar nodi cynhyrchion organig twyllodrus sy'n cael eu cynhyrchu, eu gwerthu neu eu mewnforio i farchnad yr UE. Roedd hyn yn cynnwys rhai llwythi organig yn ymwneud â'r DU.

**5.6.14** Mae canlyniadau gweithredol llwyddiannus yn ymwneud â chynhyrchion organig wedi cynnwys:

- ymchwiliad Eidalaidd-Serbaidd i Grŵp Troseddu Cyfundrefnol yn gwerthu sudd, jam, a bwydydd tun wedi'u labelu fel rhai organig, wedi'u gwneud gan ddefnyddio afalau pydredig.<sup>62</sup>
- atafael 470 tonnall o lysiau yn Sbaen wedi'u marchnata fel rhai organig, ond a gafwyd gan gyflenwyr a oedd yn ffermio'n gonfensiynol yn unig.<sup>63</sup> Arweiniodd hyn at arestio tri o bobl am droseddau twyll.
- hefyd yn Sbaen, datgelodd awdurdodau weithgarwch gwerthu wyau confensiynol yn dwyllodrus fel rhai organig, gan arwain at atafael dros 45,000 o wyau, a chwe arestiad.



#### Astudiaeth Achos – Twyll Organig – UDA

Ym mis Awst 2019, cafwyd grŵp o ffermwyr yn yr Unol Daleithiau yn euog o werthu indrawn (*maize*) a ffa soia confensiynol fel bwyd anifeiliaid organig. Amcangyfrifir bod y grŵp wedi gwneud mwy na \$120 miliwn o'r cynllun, a bod eu cynnyrch yn cyfrif am hyd at 7% o rawn organig ac 8% o ffa soia organig a dyfwyd yn yr Unol Daleithiau yn 2016.

Gwerthwyd y cynnyrch i ffermwyr da byw organig, a oedd yn golygu o ganlyniad nad oedd y cynhyrchion cig, llaeth ac wyau yn cydymffurfio â'r safon organig. Mae graddfa'r twyll hwn yn golygu y bydd nifer sylweddol o ddefnyddwyr yr Unol Daleithiau wedi talu premiwm heb yn wybod am gynnyrch nad oedd yn cwrdd â'u disgwyliadau o ran ansawdd.

<sup>61</sup> [Cyrrff rheoli cynnyrch organig cymeradwy'r DU](#), GOV.UK, 2018.

<sup>62</sup> [Eurojust yn helpu i ddatgelu twyll bwyd organig ffug](#), EUROJUST, Gorffennaf 2019

<sup>63</sup> [Y Gwarchodlu Sifil yn atafael 300 tonnall a 39,000 litr o fwyd a diod ffug](#), Guardia Civil, Mehefin 2019.

- 5.6.15** Oherwydd natur ryngwladol y sector organig, gall fod yn gymhleth gwirio gwir darddiad a statws ardystio cynnyrch pan fydd yn cyrraedd ei gyrchfan derfynol. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan heriau gyda gwirio statws organig cynnyrch trwy ddadansoddiad gwyddonol, gan arwain at yr angen i ddilyn trywydd papur hir a chymhleth i wirio statws.
- 5.6.16** Mae **cynlluniau ansawdd yr UE** yn diogelu ystod o gynhyrchion rhanbarthol, neu gynhyrchion traddodiadol arbenigol a gynhyrchir yn Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae mwyafrif y mesurau amddiffyn hyn yn gysylltiedig â tharddiad daearyddol, neu'r dull cynhyrchu.
- 5.6.17** Gall blaenoriaethu camgynrychioli cynhyrchion â Dynodiad Tarddiad Gwarchoddedig (PDO) fel mater amrywio rhwng gwledydd yn dibynnu ar nifer y cynhyrchion y maent wedi'u cofrestru, a phwysigrwydd economaidd y cynhyrchion hyn. Yn y DU, mae dros 40% o gynhyrchion PDO a Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) yn tarddu o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 5.6.18** Mae'n debygol bod rhai cynhyrchion yn cael eu marchnata'n dwyllodrus fel rhai sydd â statws o'r fath, o ystyried y pris uwch a'r gyfran o'r farchnad y gallant ei hawlio o'i gymharu â chynhyrchion tebyg. Nodwyd hyn mewn perthynas â chynhyrchion gwin pefriog a ham Eidalaidd.
- 5.6.19** Mae gan Prosecco statws PDO yn yr UE a chaiff ei gydnabod o dan y cynllun dynodiad tarddiad domestig Eidalaidd a reolir (DOC) a'r cynllun gwarantiedig ar gyfer dynodiad tarddiad a reolir (DOCG).
- 5.6.20** Mae adroddiadau wedi nodi poteli o win pefriog wedi'u labelu'n anghyfreithlon fel Prosecco (yn tarddu o ardaloedd y tu allan i ranbarth Prosecco, gan gynnwys rhai a gynhyrchwyd y tu allan i'r Eidal) a hefyd marchnata gwin pefriog 'ar dap' neu o gasgen fel Prosecco mewn nifer o fusnesau ledled y DU. Ni cheir marchnata gwin a werthir yn y modd hwn fel Prosecco.
- 5.6.21** Mae'n debygol bod ei boblogrwydd yn gwneud Prosecco yn fwy agored i weithgarwch twyllodrus o'r natur hon o'i gymharu â chynhyrchion gwin pefriog eraill.
- 5.6.22** O dan Ymgyrch OPSON IX yn 2019-20, cafodd 210 tunnell o gaws nad oedd yn bodloni amodau'r dynodiad daearyddol gwarchoddedig ar y label ei atafael (*seized*).<sup>64</sup>
- 5.6.23** Cafwyd gwybodaeth am sawl achos o ddynodiad gwarchoddedig Parma ham yn cael ei hysbysebu'n anghywir gan werthwyr yn y DU yn ystod y cyfnod hwn.
- 5.6.24** Yn y DU, mae yna nifer o **gynlluniau sicrwydd ansawdd** cydnabyddedig ar gyfer cig, llaeth, wyau a bwyd anifeiliaid. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu harwain gan y diwydiant, ac maent yn hyrwyddo safonau uchel o ran lles a magu anifeiliaid.
- 5.6.25** Rhaid i gynhyrchwyr sydd am gael eu cydnabod o dan y cynlluniau hyn dalu ffi aelodaeth, ac maent yn destun archwiliadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol.
- 5.6.26** Gall defnyddwyr ddefnyddio labeli'r cynlluniau hyn i nodi cynhyrchion o darddiad Prydeinig ac i bennu ansawdd gwell i gynhyrchion sydd â'r nodau hyn. Mae'n debygol bod yr arwyddocâd a roddir ar y nodau adnabod hyn yn golygu eu bod yn fwy deniadol i dwyllwyr.

<sup>64</sup> [Datganiad i'r wasg OPSON IX](#), Europol

- 5.6.27** Nid ydym ni'n gwybod faint yn union o gynhyrchion sydd wedi'u labelu'n dwyllodrus sy'n honni eu bod yn cael eu cynhyrchu i safonau cynlluniau sicrwydd, ond mae hyn wedi'i nodi o fewn adroddiadau i'r Unedau. Mae'r Uned yn parhau i gryfhau ei pherthynas gyda'r cyrff sy'n gyfrifol am y cynlluniau sicrwydd hyn i wella ac i ehangu ffrydiau gwybodaeth i reoleiddwyr.
- 5.6.28** Mae camgynrychioli ansawdd **pysgod cregyn** wedi'i nodi yn ystod y cyfnod adrodd, yn bennaf mewn perthynas â chynaeafau anghyfreithlon. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a chreu dogfennaeth dwyllodrus a ddefnyddir i guddio gwir ansawdd y cynnyrch.
- 5.6.29** Mae hyn yn digwydd trwy gamgynrychioli cynnyrch o welyau Dosbarth B neu C, neu o ardaloedd gwaharddedig, fel rhai dosbarth uwch. Mae datgan cynnyrch fel un dosbarth uwch yn lleihau gofynion prosesu ar ei gyfer, yn lleihau costau ac yn ei gwneud hi'n haws ei werthu am bris uwch. Fodd bynnag, gall y cynnyrch dal gynnwys tocsinau niweidiol, gan godi pryderon ynghylch diogelwch defnyddwyr.
- 5.6.30** Mae **gwirodydd**, yn enwedig fodca, yn agored i gamgynrychioli ansawdd, ac mae adroddiadau wedi dod i law mewn perthynas â sawl achos o gynnyrch ffug yn cael ei farchnata.
- 5.6.31** Mae diwydiant gwin a gwirodydd y DU yn cynhyrchu tua £49 biliwn bob blwyddyn mewn gweithgarwch economaidd, gyda £10.6 biliwn wedi'i gynhyrchu drwy werthu gwin a £11.1 biliwn drwy werthu gwirodydd yn 2018.<sup>65</sup> Yn y DU, mae 81% o oedolion sy'n yfed alcohol, yn yfed gwin, a 79% yn yfed gwirodydd. O ganlyniad, mae'r diwydiant alcohol yn darged proffidiol ar gyfer gweithgarwch troseddol.
- 5.6.32** Mewn rhai achosion, canfuwyd bod fodca ffug yn niweidiol i iechyd oherwydd lefelau methanol a chemegion diwydiannol eraill, fel y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y bennod hon.
- 5.6.33** Amlygodd achos yr adroddwyd amdano ym mis Mehefin 2019 broblem gyda **gwin** o ansawdd is yn cael ei roi mewn poteli ffug sy'n dwyn enw brand poblogaidd a chyfarwydd. Mae'n debygol bod llawer mwy o win ffug yn cylchredeg ar y farchnad defnyddwyr yn y DU nag yr un achos hwn a gadarnhawyd, a'r enghraifft gynharach o Prosecco.
- 5.6.34** Mae gweithgarwch gweithredol diweddar a gydlynwyd gan yr Unedau wedi targedu presenoldeb alcohol anghyfreithlon ym marchnadoedd y DU o dan Ymgyrch OPSON IX. Ar draws tair ar ddeg o wledydd Ewropeaidd a gymerodd ran, atafaelwyd 1.2 miliwn litr o ddiodydd alcoholig.<sup>66</sup>

### Camgynrychioli Tarddiad

- 5.6.35** Mae camgynrychioli tarddiad yn cwmpasu labelu bwyd ar gam fel un sy'n dod o wlad neu ranbarth penodol, neu fel un sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Defnyddir y fethodoleg hon oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys prisiau uwch ar gyfer cynhyrchion o'r tarddiad hwnnw, i osgoi rheolaethau mewnforio, neu i wneud i gynnyrch ymddangos yn fwy dymunol, neu o ansawdd gwell.

<sup>65</sup> [Ffeithiau a Ffigurau](#), Cymdeithas Masnach Gwinoedd a Gwirodydd (WSTA).

<sup>66</sup> [Datganiad i'r wasg OPSON IX](#), Europol



- 5.6.36** Mae gwneud dewisiadau ynghylch ble y daw eich bwyd yn nodwedd allweddol o ymddygiadau cyfredol defnyddwyr, ac o'r herwydd, mae tarddiad sy'n cael ei ystyried yn ddymunol yn creu statws gwerthadwy iawn. Mae camgynrychioli cynhyrchion fel rhai o darddiad Prydeinig yn thema a nodir yma. Mae Ymchwil yr ASB<sup>67</sup> yn dangos gwahaniaeth sylweddol yn hyder defnyddwyr yn ansawdd bwyd o'r DU ac Iwerddon, o'i gymharu â'r hyn a gynhyrchir dramor.
- 5.6.37** Asesir bod camgynrychioli tarddiad bron yn sicr yn digwydd ar gyfer amrywiaeth o fwydydd. Ymhlith y bwydydd mwyaf amlwg mae wyau a dofednod, er bod camgynrychioli tarddiad yn cael ei nodi ar draws meysydd bwyd eraill hefyd.
- 5.6.38** Ymhlith yr achosion yr adroddir amdanynt y mae dofednod nad ydynt yn dod o'r DU sy'n cael eu hail-labelu a'u gwerthu fel rhai o Brydain neu eu marchnata fel rhai lleol a maes.



### Astudiaeth Achos – Camgynrychioli cig

Cafwyd dyn busnes o Swydd Warwick yn euog yn 2019 o labelu a marchnata cig a dofednod a fewnforiwyd fel cynhyrchion Prydeinig a chynhyrchion wedi'u rhewi fel rhai ffres, yn ogystal â honni ar gam fod cynhyrchion o statws premiwm neu dda byw lles uchel.

Yn dilyn yr erlyniad Safonau Masnach Llwyddiannus, a gefnogwyd yn ei gamau cynnar gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, cafodd y troseddwr ei ddedfrydu i bron i dair blynedd o garchar ochr yn ochr â dirwy, talu costau a atafael asedau gwerth cyfanswm o bron i hanner miliwn o bunnoedd.

- 5.6.39** Yn hanesyddol mae gwybodaeth (*intelligence*) wedi nodi camgynrychioli tarddiad cynhyrchion cig (i raddau amrywiol); canfu gwaith samplu mwy diweddar o'r diwydiant fod 3.7% o samplau cig coch a dofednod yn arddangos proffiliau annormal o'u cymharu â set ddata gyfeirio (ac y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt), er bod y profion yn ddangosol yn hytrach nag yn derfynol.<sup>68</sup>
- 5.6.40** Rydym ni'n asesu ei bod yn fwy tebygol nodi materion o'r fath mewn busnesau llai, yn hytrach na chynhyrchwyr a chyflenwyr mawr sydd â mynediad ehangach at eu cadwyni cyflenwi, a mwy o reolaeth drostynt.
- 5.6.41** Mae gwybodaeth yn nodi achosion o wyau o'r tu allan i'r DU yn cael eu marchnata fel rhai Prydeinig. Mewn un achos, roedd yr wyau yn dod o ieir batri ond roeddent yn cael eu marchnata fel rhai organig (ac felly roeddent hefyd yn camgynrychioli ansawdd).


### Camgynrychioli Budd a/neu Ddiogelwch

- 5.6.42** Mae camgynrychioli budd a/neu ddiogelwch yn golygu honni ar gam fod gan gynnyrch effaith fanteisiol, neu ei fod yn ddiogel i'w fwyta gan bobl. Mae'r camgynrychioli yma yn tueddu i gael ei dargedu at gynulleidfaoedd penodol o ddefnyddwyr.

<sup>67</sup> [Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd yr ASB](#), Adroddiad Cylch 19, Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Chwefror 2020.

<sup>68</sup> Profwyd 10 allan o 268 o samplau ar gyfer tarddiad daearyddol o fewn y set ddata hon.


- 5.6.43** Mae cynhyrchion nad ydynt yn fwyd yn sylweddau nad oes lle iddynt yn neiet pobl, ond eto cânt eu marchnata fel bwyd neu fel atchwanegiad (*supplement*). Mae rhai yn honni buddion penodol, er enghraifft cefnogi colli pwysau.
- 5.6.44** Mae **2,4-Dinitrophenol (DNP)** yn gynnyrch nad yw'n fwyd sy'n beryglus, wedi'i farchnata fel pilsen deiet. Mae ganddo effeithiau andwyol sylweddol, gan achosi o leiaf 31 marwolaeth yn y DU ers 2007, gan gynnwys pedair marwolaeth yn 2019 ac un yn chwarter cyntaf 2020.<sup>69</sup> Mae gan y cemegyn briodweddau ffrwydrol ac er ei fod weithiau'n cael ei farchnata fel un sy'n addas ar gyfer rhai defnyddiau amaethyddol, nid yw wedi'i awdurdodi at y dibenion hyn yn y DU.
- 5.6.45** Gall DNP apelio at grwpiau penodol o ddefnyddwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unigolion sy'n ceisio magu cyhyrau a'r rheiny â phroblemau dysmorffia'r corff. Mae'n cael ei farchnata fel cymhorthydd colli pwysau cyflym ac effeithiol, yn aml heb unrhyw sôn am yr effaith niweidiol ddifrifol ar iechyd a all ddeillio o fwyta'r cynnyrch.
- 5.6.46** Mae'r Uned wedi gweithio'n helaeth ers 2015 i dargedu gwerthu DNP, yn enwedig ar-lein, ac i ddwyn i gyfrif y rhai sy'n gyfrifol. Mae hyn wedi cynnwys cael gwared ar dros 350 o restrïadau (*listings*) ar-lein, gan gynnwys gwefannau, rhestriadau marchnad a phroffiliau cyfryngau cymdeithasu. Mae nodi a dileu rhestriadau pellach yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r Unedau'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y Llywodraeth a'r dirwedd orfodi, yn Whitehall ac yn Llywodraeth yr Alban, i sicrhau y gweithredir ar y mater hwn ar y cyd ac o dan y fframwaith deddfwriaethol mwyaf priodol.



**Astudiaeth achos: Ymgyrch OPSON VIII – DNP**

Aeth gweithgarwch a gynhaliwyd gan ddeg Aelod-wladwriaeth yr UE a'i gydlynw gan yr Unedau, fel rhan o Ymgyrch OPSON VIII, ati'n rhagweithiol i dargedu gwerthu a marchnata DNP. Roedd y canlyniadau'n cynnwys:

- cael gwared ar 75 o restrïadau DNP ar-lein
- atafael DNP sy'n cyfateb i dros 50,000 o gapsiwla, a
- rhannu negeseuon iechyd ar y teledu, y cyfryngau cymdeithasu ac ar wefannau asiantaethau diogelwch bwyd ledled Ewrop.



- 5.6.47** Mae bron yn sicr bod DNP yn dal i fod yn bresennol ym marchnad defnyddwyr y DU, ac y bydd gwerthwyr yn parhau i farchnata eu cynnyrch tuag at grwpiau penodol o ddefnyddwyr.
- 5.6.48** Mae nifer o achosion troseddol yn ymwneud â chyflenwi DNP, wedi'u cefnogi neu eu cychwyn ar sail gwybodaeth gan yr Unedau, wrthi'n mynd rhagddynt neu wedi dod i ben yn ddiweddar yn yr Unol Daleithiau. Mae'r rhain yn ymwneud â gwerthwyr sy'n gysylltiedig â gwerthiannau y gwyddys eu bod yn cael eu gwneud i ddefnyddwyr y DU, ac maent wedi arwain at rai dedfrydau o garchar.

<sup>69</sup> Data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth am Wenwynau Cenedlaethol, 30 Mehefin 2020.

- 5.6.49** Mae **Hydoddiant Mwynol Gwyrthiol (MMS)**, sef hydoddiant sodiwm clorit, yn sylwedd nad yw'n fwyd sy'n cael ei farchnata fel sylwedd iachau, gyda rhai gwerthwyr yn honni y gall wella cyflyrau fel awtistiaeth, malaria neu glefyd Lyme.
- 5.6.50** Mae masnachwyr ar-lein sy'n hyrwyddo ac yn gwerthu MMS i ddefnyddwyr y DU yn parhau i gael eu nodi, ac mae'r Unedau'n gweithredu i'w rhwystro. Mae bron yn sicr, fodd bynnag, y bydd y fasnach hon yn parhau i gael ei dilyn, o bosibl mewn ffyrdd sy'n cuddio defnydd bwriadedig y cynnyrch.
- 5.6.51** Mae **atchwaniadau bwyd** yn thema gref arall o fewn camgynrychioli budd a/neu ddiogelwch. Mae hyn yn aml yn cynnwys mynd ati i gynnwys bwydydd newydd heb eu cymeradwyo mewn cynhyrchion.<sup>70</sup> Gall rhai o'r bwydydd newydd hyn fod yn agos o ran eu natur at sylweddau nad yw eu presenoldeb mewn bwyd wedi'i awdurdodi oherwydd materion iechyd, er enghraifft o ran analogau'r feddyginiaeth anawdurdodedig 1,3-dimethylamylamine (DMAA).
- 5.6.52** Mae gwaith samplu awdurdodau lleol wedi nodi lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfio o ran labelu cynhyrchion atchwaniadau bwyd. Mae'r rhain yn amrywio o honiadau iechyd a maeth gwaharddedig neu wallus i ddefnydd amhriodol o'r term 'naturiol'. Ni fyddai pob achos o ddiffyg cydymffurfio yn dod o fewn y diffiniad o droseddau bwyd.
- 5.6.53** Mae cynhyrchion sy'n gysylltiedig â honiadau llosgi braster yn amlwg. Mae'r cynhwysion gweithredol penodol o ddiddordeb yn cynnwys CBD a modwleiddwyr derbynnedd androgen dethol (SARMs).
- 5.6.54** Efallai y bydd y farchnad broffidiol ar gyfer atchwaniadau bwyd yn cymell rhai yn y sector i gamgynrychioli manteision neu gynhwysion eu cynhyrchion, neu i werthu cynhyrchion sy'n debygol o apelio at rai cwsmeriaid ond nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU. Mae pa mor hawdd yw cael mynediad anffurfiol i'r sector hwn, a'r ffaith bod modd cludo atchwaniadau yn fyd-eang trwy'r system bost, yn gwneud hwn yn faes o bwys.
- 5.6.55** Mae'n debygol iawn bod sylweddau ac eithrio bwyd yn bresennol yn y farchnad defnyddwyr. Gallai'r sylweddau hyn gael sgîl-effeithiau a allai fod yn niweidiol, ond efallai y byddant ond yn dod i'r amlwg yn sgîl niwed difrifol neu farwolaeth yn gysylltiedig â'u cymryd. Rydym ni'n wyliadwrus o'r bygythiad hwn a hefyd yn gallu nodi achosion cadarnhaol o gyfnewid gwybodaeth o ran atchwaniadau.

### Camgynrychioli pa mor ffres yw bwyd

- 5.6.56** Mae camgynrychioli dyddiad mewn perthynas â bwyd yn cynnwys datganiad ffug o ddyddiad ffresni neu ddyddiad y bydd cynnyrch yn para. Gall yr arfer hwn amrywio o ymdrechion lefel isel i dwyllo, i dwyll mwy cymhleth sy'n gofyn am waith cynllunio, gydag effaith ehangach.
- 5.6.57** Gall **ymestyn dyddiadau para ar fwyd** ddigwydd ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i wahanol raddfeydd a maint y twyll. Mae bron yn sicr o gael ei yrru gan gymhellion ariannol, ond gall cymhelliant ddibynnu ar b'un a yw'r drosedd yn ymateb cyflym i faterion rheoli stoc tymor byr neu'n weithgarwch â ffocws a pharhad gyda lefel o gymhlethdod.

<sup>70</sup> Mae bwydydd newydd yn fathau penodol o fwydydd nad oes hanes o'i bwyta, yn yr UE, cyn mis Mai 1997.

- 5.6.58** Mae gweithgarwch yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gynhyrchion lle na fydd unrhyw un yn sylwi ar lefel y ffresni yn y tymor byr, neu lle mae cyfle neu allu profi cyfyngedig i bennu bod dyddiad wedi'i ymestyn. Mae nwyddau sy'n agored i'r twyll hwn yn cynnwys cig coch, pysgod, dofednod ac wyau.
- 5.6.59** Gall methodolegau a ddefnyddir gan dwyllwyr i ddatgan ffresni neu ddyddiad cynnyrch amrywio o newidiadau syml mewn labeli i lefelau twyll cymhleth, fel mynd ati i newid dyddiadau ar labeli, cuddio cynhyrchion â marinadau neu ychwanegion; neu rewi cynnyrch cyn ei ddadmer yn ddiweddarach i'w werthu fel cynnyrch 'ffres'. Mae problemau hefyd yn cynnwys cymysgu cynnyrch sydd y tu hwnt i'w ddyddiad para gyda chynnyrch ffres a hefyd defnyddio cemegion neu gynhwysion ychwanegol i newid ymddangosiad y bwyd, sy'n fath o ddifwyno ansoddol.
- 5.6.60** Mae **camgynrychioli dyddiadau lladd** wedi'i nodi, gyda gweithredwyr busnesau bwyd yn newid dyddiadau lladd er mwyn gwneud i gig ymddangos yn fwy ffres. Mae ail-ddyddio carcasau dofednod ac yna eu prosesu i greu cig sydd wedi'i wahanu'n fecanyddol (MSM) hefyd wedi'i nodi.
- 5.6.61** Mae'r adroddiadau sy'n ymwneud â ffresni wyau yn parhau, gydag oedran yr wyau yn cael ei guddio trwy '**godio'r cynnyrch ymlaen**'. Mae oes silff yn cael ei hymestyn trwy ddyddiadau 'dodwy' neu 'brosesu' ffug ar wyau pan gânt eu stampio.
- 5.6.62** Mae gwir raddfa'r twyll hwn yn y DU yn parhau i fod yn anhysbys, ond mae'n debygol bod rhai wyau sydd wedi'u codio ymlaen yn bresennol yn y farchnad. Mae wyau wedi'u codio ymlaen hefyd yn peri pryderon iechyd posibl i ddefnyddwyr, er nad yw graddfa unrhyw salwch sy'n deillio o hyn yn hysbys.



#### Astudiaeth Achos – Ymestyn dyddiadau

Ym mis Mawrth 2018, nododd awdurdodau Gwlad Belg eu bod wedi canfod<sup>71</sup> cig y tu hwnt i'w ddyddiad para yn cael ei roi yn ôl yn y gadwyn fwyd. Canfuwyd bod ffatri prosesu cig a storfa oer yn tynnu labeli ar gynhyrchion cig wedi'u rhewi, gan gynnwys briwgig a chynffon ych (*oxtail*), ac yn rhoi dyddiadau cyfredol yn eu lle. Yna cafodd y cig ei ddsbarthu i fanwerthwyr ar draws Gwlad Belg. Cychwynnodd Asiantaeth Ffederal Gwlad Belg ar gyfer Diogelwch y Gadwyn Fwyd (FASFC) alw'r cynnyrch dan sylw yn ôl, yn ogystal â thynnu cymeradwyaeth y cwmni yn ôl.


## 5.7 Twyll Dogfennau









**Twyll Dogfennau:** defnyddio dogfennau ffug neu rai wedi'u camgyfleu er mwyn gwerthu, marchnata neu dystio dros gynnyrch twyllodrus neu gynnyrch sy'n is na'r safon.

<sup>71</sup> [Cwestiynau Cyffredin Defnyddwyr VEVI](#), Asiantaeth Ffederal dros Ddiogelwch Bwyd (FAVV), Mawrth 2018.

- 5.7.1 Gellir defnyddio dogfennaeth dwyllodrus i gefnogi arferion amrywiol o fewn troseddau bwyd, yn arbennig camgynrychioli. Bydd y cymhelliant i gyflawni twyll dogfennau heb os yn un ariannol, p'un ai i hybu elw neu i leihau colledion.
- 5.7.2 Mae troseddwyd bwyd yn defnyddio gwaith papur a gynhyrchir trwy dwyll a chamddefnyddio dogfennau cyfreithlon. Mae'n debygol iawn o ddigwydd lle na fyddai gan nwydd unrhyw werth fel arall, er enghraifft anifail anhysbys, neu bysgod wedi'u glanio sy'n rhy fach neu dros gwota.
- 5.7.3 Defnyddir twyll dogfennau yn bennaf i guddio gwir darddiad cynnyrch (un ai er bydd ariannol uniongyrchol, neu er mwyn cael mynediad at farchnad allforio sydd wedi'i chau), i gyfleu bod cynnyrch anghyfreithlon yn un diogel a chyfreithlon, neu i roi'r argraff bod cynnyrch o ansawdd uwch nag ydyw. Mae lefel y soffistigedigrwydd yn amrywio. Mae gwiriadau sylfaenol yn aml yn gallu nodi codau cymeradwyo ffug neu rai sydd wedi'u cam-ddefnyddio; efallai y bydd angen archwiliadau wedi'u targedu i nodi pa mor gyffredin yw troseddu yn y sector organig.
- 5.7.4 Mae adroddiadau yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â phasbortau da byw, tystysgrifau mewnforio/allforio, ardystiad iechyd, datganiadau tollau, codau cymeradwyo ac ardystiad anllywodraethol.
- 5.7.5 Mae deall graddfa twyll dogfennau o fewn y gadwyn gyflenwi yn her barhaus. Bydd gwaith parhaus i ddatblygu gwybodaeth gan arbenigwyr yn y diwydiant yn allweddol i wella dealltwriaeth o union natur a graddfa'r gweithgarwch hwn. Bydd y bartneriaeth hon yn helpu i ddatblygu mesurau ataliol i liniaru'r risg hon.
- 5.7.6 Mae'r DU yn parhau i fod yn agored i ymdrechion i fewnforio cynhyrchion bwyd lle mae dogfennau ffug wedi'u defnyddio i dwyllo awdurdodau i'w gwir natur. Mae adroddiadau wedi nodi cynhyrchion a gyflwynwyd â thystysgrifau iechyd ffug, neu wedi'u labelu â rhifau cymeradwyo ffug, yn cael eu stopio ar ffin y DU. Mae natur masnachu ar draws ffiniau – sy'n cynnwys proses arolygu gyflym a phrysur – yn creu ffenestr o gyfle troseddol.
- 5.7.7 Mae'r tabl canlynol yn rhestru rhai mathau allweddol o dwyll dogfennau a'n hasesiad cysylltiedig.

Dogfen	Budd arfaethedig o'i defnyddio	Asesiad
<b>Tystysgrifau iechyd</b> 	Ffordd i osgoi gwiriadau iechyd cyn-allforio a/neu reolaethau mewnforio yr UE ar gludo llwythi ( <i>shipments</i> ) sy'n cael eu mewnforio.	Mae tystysgrifau iechyd twyllodrus wedi'u nodi mewn llwythi o ffrwythau a llysiau a fewnforiwyd o India, na fyddent yn pasio gwiriadau iechyd.

Dogfen	Budd arfaethedig o'i defnyddio	Asesiad
<p><b>Datganiadau tollau</b></p> 	<p>Mewnforio cynhyrchion bwyd sydd wedi'u cyfyngu a/ neu eu gwahardd trwy ffugio datganiadau tollau.</p>	<p>Defnyddiwyd datganiadau tollau ffug neu anghywir mewn ymdrechion i fewnforio nwyddau wedi'u gwahardd o Nigeria a Ghana, gan gynnwys cig llwyn (<i>bushmeat</i>) ac olew palmwydd wedi'i ddifwyno. Maent hefyd wedi'u defnyddio i fewnforio meddyginiaethau milfeddygol a gwrthfotigau yn anghyfreithlon.</p> <p>Mae hefyd yn debygol iawn bod DNP yn dod i mewn i'r DU trwy gam-ddatgan cynnwys yn fwriadol ar ffurflenni tollau, p'un ai ar becynnau post neu mewn symiau mwy i'w cyfanwerthu (<i>wholesale</i>).</p>
<p><b>Tystysgrifau iechyd allforio</b></p> 	<p>Camgynrychioli cynhyrchion nad ydynt yn dod o'r DU fel rhai sydd yn dod o'r DU, neu gynhyrchion o'r UE fel rhai o wlad arall, i gynyddu gwerth cynnyrch neu guddio ei darddiad.</p>	<p>Mae awdurdodau yn Asia ac Ewrop wedi nodi tystysgrifau iechyd allforio ffug.</p> <p>Mae tystysgrifau ffug hefyd wedi'u nodi yn Ffederasiwn Rwsia i guddio tarddiad cynhyrchion amaethyddol yr UE oherwydd y gwaharddiad ar drosglwyddo'r cynhyrchion hyn i Rwsia.</p> <p>Mae tystysgrifau ffug hefyd wedi'u defnyddio er mwyn helpu i allforio protein anifeiliaid cnoi cil wedi'i brosesu i drydydd gwledydd trwy nodi cyrchfan (<i>destination</i>) yn yr UE.</p>
<p><b>Rhifau cymeradwyo</b></p> 	<p>Rhoi safonau hylendid a diogelwch ffug ar gynhyrchion.</p>	<p>Wedi'i nodi ar draws sawl sector gan gynnwys cael gwared ar farciau iechyd gwreiddiol ar ddofednod, defnyddio rhifau cymeradwyo twyllodrus gan longau rhewgell anghymeradwy mewn pysgodfeydd, a chamgynrychioli wyau llawr fel cynhyrchion clwyd o ansawdd uwch yn y sector wyau.</p>
<p><b>Tystysgrifau dal/glanio</b></p> 	<p>Hwyluso mynediad pysgod neu bysgod cregyn a gynaeafwyd yn anghyfreithlon a/neu eu dosbarthu'n ffug i gadwyni cyflenwi cyfreithlon.</p>	<p>Mae dogfennaeth dwyllodrus wedi'i nodi mewn sawl lleoliad arfordirol ledled y DU, gan olygu o bosibl bod cynnyrch anniogel neu gynnyrch wedi'i orbysgota wedi dod i mewn i'r farchnad.</p>

Dogfen	Budd arfaethedig o'i defnyddio	Asesiad
<p><b>Nodi anifeiliaid yn anghywir neu ailbennu math o anifail</b></p> 	<p>Hwyluso'r broses o symud da byw sydd wedi'u cyfyngu, wedi'u dwyn neu sy'n anhysbys, a rhoi da byw wedi'u dwyn a/neu anaddas mewn cadwyni cyflenwi cyfreithlon.</p>	<p>Mae pasbortau ceffylau ffug, rhai wedi'u haltro neu rai wedi'u hailbennu wedi parhau i gael eu nodi gyda cheffylau a gyflwynwyd i'w lladd yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio nifer o ficrosglodion i guddio hunaniaeth microsglodyn gwreiddiol ceffylau. Mae hyn wedi'i nodi yng Ngweriniaeth Iwerddon ac wedi bod yn destun gweithgarwch i fynd i'r afael â'r mater yn 2019, gan gynnwys fel rhan o Ymgyrch OPSON IX.</p> <p>Mae hyn yn peri risgiau posibl i iechyd pobl gan ei bod yn bosibl defnyddio gwaith papur ffug i guddio triniaeth â meddyginiaethau milfeddygol fel ffenylbutazone. Ond mae asesiadau yn pennu bod y risgiau iechyd hyn yn fach iawn.</p> <p>Mae'n debygol iawn y rhoddir hunaniaethau newydd i wartheg sydd wedi'u dwyn er mwyn iddynt allu mynd mewn i ladd-dai cyfreithlon (neu cânt eu lladd yn anghyfreithlon a'u rhoi yn y gadwyn fwyd trwy ddefnyddio dogfennau twyllodrus eraill).</p>
<p><b>Ardystiad diwydiant a labordy</b></p> 	<p>Cynyddu gwerth a phris marchnad cynhyrchion neu roi statws diogelwch neu ddilysrwydd yn seiliedig ar ddadansoddiad labordy.</p>	<p>Mae'r Unedau wedi cael adroddiadau am sicrwydd fferm a labelu ardystiad organig twyllodrus. Mae'r defnydd twyllodrus o ardystio halal, a labelu 'maes' (<i>free-range</i>) hefyd wedi'i nodi.</p> <p>Prin iawn fu'r adroddiadau am dystysgrifau ffug o ddadansoddiad labordy.</p>

## 6. Dyfodol Troseddau Bwyd

---

- 6.1.1** Gall troseddau bwyd ffynnu pan fydd y berthynas ‘cyflenwad a galw’ sefydledig yn newid yn gyflymach nag y gellir addasu a chymhwyso’r mesurau rheoli priodol. Ein hasesiad ni yw y bydd graddfa a chyflymder y newidiadau yn y cyflenwad a’r galw yn cynyddu yn ystod y 36 mis nesaf. Gall datblygiadau yn y tirweddau gwleidyddol, amgylcheddol, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac economaidd gynyddu’r cyfleoedd i droseddau bwyd ddigwydd, ond gallent hefyd wella ein gallu i nodi a brwydro yn erbyn y bygythiad.
- 6.1.2** Waeth beth yw canlyniad trafodaethau presennol masnach y DU/UE, bydd y dirwedd fwyd bron yn sicr yn newid mewn rhyw ffordd a gyda hynny, bydd cyfleoedd newydd posibl ar gyfer cyflawni troseddau bwyd. Gallai hyn ddeillio, er enghraifft, o berthnasoedd masnachu newydd yn cyflwyno gwledydd tarddiad llai cyfarwydd i gadwyni cyflenwi.
- 6.1.3** Bydd trefniadau o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, sy'n ymwneud â phresenoldeb parhaus y genedl ym marchnadoedd yr UE a'r DU, hefyd yn bwysig o ran effeithiau ar symud cynhyrchion ac ymddygiadau masnachol.
- 6.1.4** Mae'r dirywiad economaidd presennol yn debygol iawn o gael effaith ar rai ymddygiadau defnyddwyr a busnesau. I fusnesau, byddai'r cymhelliant i gyflawni twyll yn cynyddu, wrth i gyfleoedd eraill i wneud arian leihau. O safbwynt defnyddwyr, mae biliau bwyd yn dod yn fwy sylweddol fel canran o incwm cartrefi pan fydd incwm yn gostwng. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall cartrefi wneud gwahanol ddewisiadau defnyddwyr. Gallai'r ffactorau hyn arwain at fwy o bobl yn dioddef yn sgil y mathau o droseddau bwyd sy'n ymwneud â rhoi bwyd o ansawdd gwael ar y farchnad i'w werthu am brisiau isel.
- 6.1.5** I'r gwrthwyneb, mae pŵer prynu cynyddol y dosbarth canol byd-eang wedi bod yn gyrru'r galw am fwydydd moethus, a fydd yn gynyddol uwch na'r cyflenwad. Hyd yn oed mewn amseroedd anoddach, fe allai barhau i wneud bwydydd premiwm, fel y rhai sydd ag enw bwyd gwarchoddedig neu darddiad a ffefrir, ac efallai rhai ffynonellau protein a ffefrir (fel porc yng ngolwg defnyddwyr Tsieineaidd), yn darged deniadol ar gyfer masnach dwyllodrus – yn arbennig os yw cyfyngiadau ymarferol ar gyfeintiau cynhyrchu yn codi.
- 6.1.6** Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasu yn y DU yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod a bydd yn effeithio fwy ar ymddygiad defnyddwyr. Bydd dylanwad y cyfryngau cymdeithasu yn amlwg mewn newidiadau cyflym ac eang o ran dewisiadau defnyddwyr, sy'n fwyfwy rhyngwladol.
- 6.1.7** Rydym ni'n sylwi ar ostyngiad yn yr amser y mae'n ei gymryd i gynhyrchion newydd ddod yn boblogaidd ar raddfa fawr, yn arbennig o fewn bwydydd mwy newydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith hybu'r cyfryngau cymdeithasu. Os bydd y duedd yn parhau, bydd yn anoddach ymateb i faterion troseddau bwyd gyda'r cynhyrchion hyn.



- 6.1.8** Ar y llwybr presennol, bydd mwy o fwyd a diod yn cael eu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasu, gan waethygu'r pryderon presennol am y farchnad hon.
- 6.1.9** Bydd newidiadau yn nemograffeg poblogaeth y DU yn y dyfodol yn effeithio ar y cyflenwad a'r galw mewn perthynas â bwyd. Gallai newidiadau o'r fath arwain at alwadau gwahanol am gynhyrchion bwyd cymunedol benodol, na chânt eu bwyta'n draddodiadol yn y DU. Lle na chaniateir cynnyrch o'r fath yn y DU, dylid disgwyl cynnydd mewn llwybrau cyflenwi anghonfensiynol ac anghyfreithlon.
- 6.1.10** Mae eisoes yn bosibl prynu bwyd ar y we dywyll, a byddai cynnydd cyffredinol yn nefnydd y we dywyll at ddibenion mwy cyffredin yn debygol o gynnwys defnyddwyr yn prynu mwy o gynhyrchion ar y we dywyll. Fodd bynnag, rydym ni'n dal i asesu y byddai prynu bwyd trwy wefannau tywyll yn canolbwyntio ar fwydydd anghyfreithlon, bwydydd newydd, cynhyrchion niweidiol nad ydynt yn fwyd ac atchwanegiadau – cynhyrchion ar drothwy cyfreithlondeb neu y tu hwnt iddo ac y mae plattform gwerthu ar wahân yn ddymunol ar ei gyfer (yn gorbwysu'r buddion bod mwy o ddefnyddwyr yn eu gweld ar y rhyngwyd gyffredin).
- 6.1.11** Mae datblygiadau gwyddonol yn y dyfodol mewn profion dilysrwydd bwyd yn debygol o gynyddu'r gallu i ganfod twyll ar draws ystod eang o wahanol fwydydd. Bydd gwerth y datblygiadau hyn yn dibynnu ar ba mor brydlon ac effeithiol y gellir defnyddio'r rhain yn ddibynadwy ac ar raddfa, ac ar eu cynnwys neu fel arall mewn unrhyw gyfres o safonau rhyngwladol derbyniol.
- 6.1.12** Rydym ni'n rhagweld y bydd technoleg blockchain<sup>72</sup> yn parhau i gael ei fabwysiadu o fewn y diwydiant bwyd i gynyddu hyder mewn dilysrwydd bwyd. Dylai disgwyliadau cynyddol defnyddwyr o ran tryloywder y gadwyn gyflenwi annog busnesau bwyd tuag at fod yn agored o ran olrhain.
- 6.1.13** Er bod technoleg blockchain yn cynnig y potensial i gynyddu gwytnwch y DU i dwyll bwyd mewn sectorau lle mae'r defnydd ohono yn gryf, nid yw'r system yn mynd i'r afael â beth sydd wrth wraidd twyll posibl. Hefyd, os yw rhai cymwysyadau blockchain yn llwyddo i sicrhau olrhain, gellid symud gweithgarwch troseddol i sectorau neu gadwyni cyflenwi bwyd eraill. Efallai y bydd y gost o weithredu blockchain o'r dechrau i'r diwedd yn rhy gostus i rai sectorau.
- 6.1.14** Bydd mesurau hefyd yn cael eu gweithredu i gryfhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â thwyll bwyd yn rhyngwladol, gan gynnwys o fewn yr UE.
- 6.1.15** Er nad yw'r DU bellach yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE, mae'n debygol iawn y bydd yr UE yn parhau i fod yn bartner masnachu allweddol ar gyfer nwyddau bwyd. Felly bydd mwy o weithgarwch cydgysylltiedig sy'n ceisio deall a mynd i'r afael â materion troseddau bwyd o fewn 27 Aelod-wladwriaeth yr UE yn fuddiol i'r DU, a gwledydd eraill sy'n masnachu gyda'r UE.
- 6.1.16** Mae'r Cyngor Ewropeaidd yn bwriadu mabwysiadu dull i wella cydweithio ar draws sectorau a chodi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr, yn dilyn cyfeiriad clir am dwyll bwyd gan yr Arlywydd newydd.<sup>73</sup>

<sup>72</sup> Mae blockchain yn rhestr o gofnodion, o'r enw blociau, sy'n gysylltiedig gan ddefnyddio cryptograffeg. Mae'n ddull diogel o gysylltu data â'i gilydd

<sup>73</sup> [Llythyr Cenhadaeth](#), Stella Kyriakides, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Medi 2019.

- 6.1.17** Nodwn y gofyniad diweddar bod yn rhaid i bob gwlad sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol diwygiedig yr UE allu trin adroddiadau o droseddau yn ddiogel a diogelu hunaniaeth a hawliau'r rhai sy'n gwneud adroddiadau. Gall hyn arwain at fwy o adroddiadau troseddau bwyd yn dod i law aelod-wladwriaethau'r UE, gan gyfoethogi'r darlun o wybodaeth sydd ar gael ac o bosibl, nodi problemau sy'n berthnasol i'r DU.
- 6.1.18** Rhagwelir hefyd y bydd gweithgarwch Rhwydwaith Twyll Bwyd yr UE yn parhau i fod yn fforwm gwerthfawr i Aelod-wladwriaethau'r UE drafod twyll bwyd, cytuno ar gynlluniau gweithgarwch ar y cyd ac ystyried materion strategol. Ategir hyn gan weithgor pwrpasol ar gyfer twyll bwyd o dan adain fframwaith Penaethiaid Asiantaethau Diogelwch Bwyd Ewrop.
- 6.1.19** Rydym ni'n asesu y bydd mwy o ymdrechion i ganfod ac atal troseddau bwyd ledled y byd, gyda mwy o wledydd yn datblygu galluoedd pwrpasol i fynd i'r afael â throseddau bwyd neu'n bwriadu gwneud hynny. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol o fewn y gadwyn fwyd fyd-eang.
- 6.1.20** Bydd y ffocws rhyngwladol hwn yn cynnwys datblygiad parhaus y Gynghrair Fyd-eang ar Droseddau Bwyd, sy'n dwyn ynghyd y DU, Unol Daleithiau America, Canada, Awstralia a Seland Newydd i drafod, datblygu a defnyddio gallu gwrth-droseddol mewn perthynas â bwyd.
- 6.1.21** Mae gwaith cyfredol gan Bwyllgor Codex Alimentarius y Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) ar Ardystio ac Arolygu Mewnforio ac Allforio Bwyd (CCFICS) i safoni diffiniadau, a mwy o ffocws ar dwyll bwyd mewn cynadleddau rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch bwyd a chynhyrchu bwyd.
- 6.1.22** Mae'r cyfuniad o dwf poblogaeth a newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno heriau o ran cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Bydd angen mwy o fwyd arnom, ond bydd yn dod yn fwyfwy anodd ei gynhyrchu a'i gyflenwi, gan ddefnyddio dulliau presennol. Os bydd prisiau bwyd yn cynyddu yn unol â'r cyfyngiad hwn mewn cyflenwad, bydd y cymhelliant i gyflawni troseddau bwyd yn cynyddu.
- 6.1.23** Gall newidiadau ym mholisi amgylcheddol y DU yn y dyfodol arwain at fygythiadau newydd yn y dirwedd troseddau bwyd. Gallai hyn gynnwys ymyriadau cemegol anghyfreithlon wrth gynhyrchu cynydu a dulliau cludo nwyddau amhriodol y tu allan i'r gadwyn oer yn feysydd a allai dyfu mewn ymateb i reolaethau rheoliadol dros allyriadau cerbydau a phlalladdwyr.
- 6.1.24** Gallai'r ymgyrch i sicrhau economi carbon isel arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer diogelwch a dilysrwydd bwyd. Efallai bydd mwy o ddinasoedd y DU yn cyflwyno parthau allyriadau isel, a allai atal cyflenwyr bwyd rhag defnyddio cerbydau oeri hŷn sy'n llygru yn yr ardaloedd hynny, arfer a fydd yn denu cosb ariannol. Gallai hyn arwain at dynnu bwyd o'r gadwyn oer wrth ei ddsbarthu, gan godi materion diogelwch a hylendid.
- 6.1.25** Pan fydd y bygythiadau hyn a ffactorau dylanwadol eraill yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, ein hasesiad yw bod modd **cyfiawnhau yn llawn y ffocws parhaus ar y bygythiad go iawn y mae troseddau bwyd yn ei beri i'r DU, yn ddomestig ac o dramor.**

- 6.1.26** Bydd gofyniad parhaus i ddiogelu'r DU a'i buddiannau rhag troseddau bwyd, ar wahân i ymdrechion y llywodraeth, partneriaid preifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r mater nawr ac yn y dyfodol.
- 6.1.27** Bydd yr Unedau yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o fygythiadau a gwendidau troseddau bwyd y DU, er mwyn diogelu defnyddwyr a busnesau orau. Byddwn ni'n parhau i archwilio ac asesu canlyniadau rheoleiddio yn y dyfodol, a monitro'r cydadwaith rhwng ein systemau bwyd, troseddau bwyd a throseddau cyfundrefnol difrifol eraill sy'n digwydd yn yr amgylchedd bwyd ond nad ydynt yn effeithio ar ddiogelwch na dilysrwydd cynnyrch.
- 6.1.28** Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod bygythiad troseddau bwyd yn y DU yn y dyfodol yn cael ei leihau, ei reoli a'i fod yn parhau i gael ei ddeall yn drylwyr. Bydd angen cymorth a chefnogaeth ein holl bartneriaid arnom os ydym am gyflawni'r nod hwn mewn ffordd gredadwy ac ar y cyd.

## 7. Y camau nesaf

---

- 7.1.1** Mae'r asesiad hwn yn dangos cymhlethdod ynghlwm â deall troseddau bwyd, ac i ba raddau y gellir bod yn agored i dwyll mewn sawl ffurf, gan gyflwyno lefelau amrywiol o niwed yn y DU. Gallwn ni lunio barn ynghylch pa agweddau ar y bygythiad troseddau bwyd sy'n haeddu eu blaenoriaethu ar sail ein dealltwriaeth gyfredol o'r dirwedd hon.
- 7.1.2** Mae'r asesiad yn cael ei ddefnyddio fel sbardun ar gyfer blaenoriaethu strategol gan yr Unedau, yn ogystal â chefnogi gwaith ehangach o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban.
- 7.1.3** Mae pob Uned wedi datblygu ei strategaeth reoli ei hun a chynllun gweithgarwch cysylltiedig i gyflawni'r strategaeth honno, gan gynnwys nodi gofynion gwybodaeth (*intelligence*) newydd. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch sydd wedi'i anelu'n benodol at ddiogelu defnyddwyr a busnesau rhag dioddef troseddau bwyd, ac atal unigolion rhag cymryd rhan mewn troseddau bwyd, yn ogystal â mynd ar drywydd troseddwyr bwyd.
- 7.1.4** Rydym ni hefyd eisiau parhau i ddeall mwy gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant bwyd, y cyrff masnach, y rhai sy'n gweithio yn y maes rheoleiddio, a'n partneriaid gorfodi cyfraith. Mae sawl ffordd o gysylltu â'r Unedau, sydd wedi'u rhestru ar y dudalen nesaf. Mae'r rhyngweithio hwn yn hanfodol i ganolbwyntio ein hymateb yn y ffordd orau i droseddau bwyd ac i wella'n barhaus.

### **Beth yw eich barn chi?**

Rydym ni'n gwerthfawrogi adborth gan bawb sydd wedi darllen y ddogfen hon.

A fydddech cystal â llenwi [arolwg byr](#) – yn hollol ddienw os oes well gennych – er mwyn ein helpu ni i wella fersiynau pellach o'r asesiadau.

### **Beth ydych chi'n ei wybod?**

Os oes gennych chi wybodaeth i'w rhannu â ni am droseddau bwyd, gallwch chi gysylltu â ni mewn sawl ffordd.

### **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Asiantaeth Safonau Bwyd**

**Ffoniwch** Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol drwy 020 7276 8787  
(9am – 5pm, Llun – Gwener)

**Gallwch chi roi gwybod am bryderon** trwy [wefan yr ASB](#)

**Anfonwch e-bost** at [foodcrime@food.gov.uk](mailto:foodcrime@food.gov.uk)

**Ewch** i adran troseddau bwyd ein [gwefan](#)

### **Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban**

**Ffoniwch** Llinell Gymorth Troseddau Bwyd am ddim yr Alban ar 0800 028 7926  
(24 awr)

**Gallwch chi roi gwybod am bryderon** trwy [ffurflen adrodd ar-lein](#) bwrpasol.

**Anfonwch e-bost** at [foodcrime@fss.scot](mailto:foodcrime@fss.scot)

**Ewch** i adran troseddau bwyd ein [gwefan](#)

# Atodiad A – Rhestr o Gyfranwyr

---

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA)

Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCA)

Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur

Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)

Cymdeithas Diogelu Asedau Trafnidiaeth (TAPA)

Cynghrair Fyd-eang ar Droseddau Bwyd

Labordy Cemegydd y Llywodraeth (LGC)

Llu'r Ffiniau y DU

Llywodraeth yr Alban

Marine Scotland

NFU Mutual

Rhwydwaith Dilysrwydd Bwyd

Rhwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd

Safonau Bwyd yr Alban

Safonau Masnach yr Alban

SeaFish

Sefydliad Rheoli Morol (MMO)

Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwylt

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), gan gynnwys ASB yng Nghymru a'r ASB yng Ngogledd Iwerddon

Yr Awdurdod Diogelwch Bwyd yn Iwerddon (FSAI)

102 o Adrannau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a Grwpiau Bwyd Iedled Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

